

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg Ebrill 2024 – Mawrth 2025

Paratowyd yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat gwahanol, e.e. print bras, Braille, fersiwn sain ac ati, cysylltwch â:

E-bost: pps@blaenau-gwent.gov.uk

Cynnwys

Adran	Teitl	Rhif tud.
1	Cyflwyniad 1.1 Fframwaith rheoleiddio 1.2 Llywodraethu ac atebolrwydd	
2	Bodloni ein safonau Cymraeg 2.1 Safonau cyflenwi gwasanaethau [1–87] 2.2 Safonau llunio polisïau [88–97] 2.3 Safonau gweithredu [98–144] 2.4 Safonau cadw cofnodion [147–154]	
3	Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27	
4	Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32	
5	Sgiliau iaith staff	
6	Rhagolwg	

1. Cyflwyniad

1.1 Fframwaith rheoleiddio

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn falch o gyflwyno ei nawfed adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg, sy'n cynnig cipolwg ar ymdrechion parhaus y cyngor i gynnal a chryfhau cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ddatblygiadau, gwelliannau a mentrau allweddol a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf i hyrwyddo'r Gymraeg a'i threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog.

Wedi'i baratoi yn unol â [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#), mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod ariannol o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025. Mae'r Mesur yn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. O dan safonau 158, 164 a 170, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n dangos cydymffurfedd â safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisiau a gweithredu.

Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso ein hymrwymiad i feithrin cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Drwy ein hymdrechion parhaus, ein nod yw cefnogi amgylchedd dwyieithog sy'n galluogi unigolion i ymgysylltu â'r cyngor yn eu dewis iaith.

1.2 Llywodraethu ac atebolrwydd

Mae gan Gyngor Blaenau Gwent, fel corff cyhoeddus, rôl allweddol wrth helpu i gefnogi ac annog y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ac mae wedi ymrwmo i gyrraedd ei safonau Cymraeg drwy fod yn 'lle sy'n deg ac agored ac yn groesawgar i bawb drwy weithio gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer', fel yr amlinellir yn ein [Cynllun Corfforaethol 2022/27](#).

Mae Cynllun Corfforaethol 2022/27 yn cydnabod y Gymraeg fel maes polisi allweddol sy'n ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau, sy'n canolbwyntio ar wella lles pobl a chymunedau lleol.

Gweithredu'r safonau

Mae pob aelod o staff yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y sefydliad yn bodloni safonau'r Gymraeg wrth hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r Gymraeg yn weithredol.

Mae'r Tîm Polisi a Phartneriaethau yn darparu cyngor, canllawiau a chymorth proffesiynol ar draws y sefydliad i helpu'r cyngor i gynnal ei ymrwymadau a'i rwymedigaethau statudol i'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaed cynnydd sylweddol o ran gwella fframwaith monitro perfformiad y cyngor drwy gynllunio busnes. Erbyn hyn, mae'n ofynnol i bob cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth gyflwyno diweddariadau chwarterol yn manylu ar eu cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg a'r camau a gymerwyd i gefnogi'r amcanion a amlinellir yn [Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27](#).

Arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol

Mae Cyngor Blaenau Gwent wrthi'n newid. Ym mis Mehefin 2024, cytunodd cynghorau Torfaen a Blaenau Gwent i rannu prif weithredwr. Y trefniant hwn yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae'n tynnu sylw at allu'r ddau gyngor i feddwl am y dyfodol a gwella cydweithio mewn modd arloesol. Rydym yn parhau i fod yn rhan o Ranbarth Marmot Gwent, ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at ddatblygu uwchgynllun Marmot ar gyfer Blaenau Gwent gyda'r nod o ddod yn ranbarth sydd am fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'u lleihau trwy ddefnyddio egwyddorion Marmot:

- Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn
- Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i wneud y gorau o'u galluoedd a rheoli eu bywydau eu hunain
- Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb
- Sicrhau safon byw iach i bawb
- Creu a datblygu mannau a chymunedau iach a chynaliadwy
- Cryfhau rôl ac effaith atal afiechyd
- Anelu at gynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch o ran iechyd gyda'n gilydd
- Mynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu, a'u canlyniadau

Mae Arweinydd y Cyngor / Aelod y Cabinet dros Lywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau yn parhau i fod yn gyfrifol am bortffolio'r Gymraeg. Ystyrir Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg gan y Pwyllgor

Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau, y cabinet, a phan fo'n briodol, y cyngor.

Bob blwyddyn, cyflwynir yr adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg i Dîm Arwain Blaenau Gwent. Mae'r Tîm Arwain yn cynnwys yr holl uwchswyddogion ac ef yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer y cyngor.

Grŵp Cydymffurfio Mewnol â'r Gymraeg

Mae'r Grŵp Cydymffurfio Mewnol â'r Gymraeg yn cyfarfod bob tri mis i adolygu datblygiadau ac ymdrin ag unrhyw heriau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â gofynion, polisiau a gweithdrefnau'r cyngor ynghylch y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys nodi rhwystrau posibl a allai rwystro'r gwaith o gyflawni'r nodau a amlinellir gennym yn y strategaeth hyrwyddo.

Mae'r grŵp yn cynnwys swyddogion o'r adrannau canlynol: Polisi'r Gymraeg a Chydraddoldeb, Datblygu Sefydliadol, Profiad Cwsmeriaid, a Chyfathrebu.

Mae pob cyfarfod yn cynnwys eitemau sefydlog ar yr agenda megis diweddariadau polisi, monitro mewnol, a'r Flaenraglen Waith ar gyfer y Gymraeg, sy'n cwmpasu ymgyrchoedd, digwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi sydd ar ddod. Mae swyddogion o fewn y grŵp yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am bynciau penodol, megis nifer y rolau a hysbysebiri fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a chyfraddau cwblhau hyfforddiant staff. Yn ogystal, mae trafodaethau'n cynnwys datblygiadau mewn digwyddiadau a mentrau partneriaid, ochr yn ochr ag enghreifftiau o'r arferion gorau.

Y Tîm Trawsnewid Addysg – Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae'r Tîm Trawsnewid Addysg yn cynnal adolygiadau misol a monitro o'r [Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg](#), gan gyflwyno adroddiadau tymhorol i'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg ac adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, cyflwynir adroddiadau datblygu a chynnydd y Fforwm Cymraeg mewn Addysg yn flynyddol drwy brosesau gwleidyddol y cyngor. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd yn parhau i fod yn

ffocws allweddol i Fwrdd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Fforwm Derbyniadau.

2. Bodloni safonau'r Gymraeg

Ers 2016, mae Cyngor Blaenau Gwent wedi bod yn gyfreithiol ofynnol i gydymffurfio â'r [hysbysiad cydymffurfio â safonau'r Gymraeg](#) a gyhoeddwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r holl staff yn rhannu'r cyfrifoldeb o sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried a'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er bod integreiddio'r Gymraeg wedi'i wreiddio yng ngweithrediadau dyddiol y cyngor, mae'r wybodaeth ganlynol yn tynnu sylw at enghreifftiau allweddol o sut mae cydymffurfedd wedi'i atgyfnerthu dros y flwyddyn ddiwethaf ar draws safonau cyflenwi gwasanaethau, polisïau a gweithredu.

Grŵp Cydymffurfio â'r Gymraeg

Ym mis Mawrth 2023, ffurfiwyd grŵp craidd i gefnogi'r gwaith o weithredu cynllun gweithredu a ysgrifennwyd mewn ymateb i ymchwiliad a agorwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i'n cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg. Felly, mae Grŵp Cydymffurfio â'r Gymraeg Blaenau Gwent yn barhad o'r grŵp craidd, a'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i'r ymchwiliad. Mae'r grŵp yn cyfarfod i fonitro trefniadau gwaith y cyngor a sicrhau ein bod yn parhau i weithio yn unol â safonau'r Gymraeg yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon ar draws y sefydliad.

Prif gyfrifoldebau'r Grŵp Cydymffurfio â'r Gymraeg ym Mlaenau Gwent yw:

- Monitro cydymffurfedd y cyngor â phum maes y safonau:
 - Safonau cyflenwi gwasanaethau
 - Safonau llunio polisïau
 - Safonau gweithredu
 - Safonau hyrwyddo
 - Safonau cadw cofnodion

- Mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau sy'n llesteirio cydymffurfedd â'r safonau
- Cadw adrannau ar draws y sefydliad yn wybodus am ddatblygiadau mewn perthynas â gofynion y Gymraeg, boed yn fewnol, yn llywodraethol neu gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- Rhannu arferion da
- Sicrhau bod aelodau'n deall, yn rhannu ac yn cymryd rhan yng ngwaith y Flaenraglen Waith ar gyfer y Gymraeg

Sesiynau arweiniad ar y Gymraeg

Mae sesiynau arweiniad ar y Gymraeg wedi cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn fel rhan o'r Flaenraglen Waith ar y Gymraeg, gan atgyfnerthu dealltwriaeth staff o gydymffurfedd yn y gweithle a defnydd iaith. Dan arweiniad ein Swyddog Cymorth Cymraeg, mae'r sesiynau hyn ar gael yn bersonol a thrwy Microsoft Teams, gan gwmpasu pynciau allweddol fel:

- Trosolwg o safonau'r Gymraeg
- Hysbysiad cydymffurfio ar gyfer safonau'r Gymraeg ym Mlaenau Gwent
- Polisi Cymraeg yn y Gweithle
- Gweithdrefn Hyfforddiant Cymraeg
- Protocolau cyfieithu
- Canllawiau cyfathrebu dros y ffôn
- Datganiad ar gyfer gohebiaeth
- Dogfen datganiadau gofynion
- Defnyddio templedi ddim yn y swyddfa
- Gweithredu'r ffurflen dewis iaith
- Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Teams

Fel rhan o'r sesiynau, caiff defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ei hyrwyddo'n weithredol i annog mwy o gyfranogiad ymhlith staff. Drwy ymgysylltu â'r sesiynau, mae gweithwyr yn ennill sgiliau ieithyddol amhrisiadwy, gan wella eu gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn effeithiol yn y Gymraeg. Nid yn unig y mae hyn yn cyfrannu at gydymffurfio â safonau'r

Gymraeg, ond mae hefyd yn meithrin amgylchedd gwaith mwy cynhwysol a chyfoethog yn ddiwylliannol.

Mae'r sesiynau hyn wedi darparu hyfforddiant sylfaenol hanfodol, gan gwmpasu cyfarchion cyffredin, ymadroddion bob dydd, a therminoleg benodol i wasanaeth wedi'i theilwra i rolau sy'n wynebu cwsmeriaid. Mae cwmpas yr hyfforddiant yn rhoi sgiliau ieithyddol hanfodol i staff ar gyfer cyfathrebu proffesiynol llyfn ac mae'r sesiynau wedi'u gwneud yn hygyrch ar draws pob maes gwasanaeth, gyda sesiynau ychwanegol wedi'u teilwra yn cael eu cynnig ar gais.

Fel cam nesaf, cynhelir archwiliad i nodi adrannau sydd heb dderbyn hyfforddiant eto, gan sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl ar draws y sefydliad. Yn ogystal, bydd arolwg yn cael ei ddosbarthu ymhlith gweithwyr sydd eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant i gasglu mewnwelediadau gwerthfawr i'w effaith a'i effeithiolrwydd a nodi meysydd i'w mireinio ymhellach. Bydd y mentrau hyn yn helpu i lunio cyfleoedd dysgu yn y dyfodol a gwneud y mwyaf o fanteision hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle.

2.1 Safonau cyflenwi gwasanaethau

Safonau 8–22: Galwadau ffôn a wneir ac a dderbynnir gan gorff

Mae staff ein canolfan gyswllt wedi bod yn cymryd rhan mewn sesiynau ymarfer rheolaidd dan arweiniad ein Swyddog Cymorth Cymraeg. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar weithdrefnau ffôn, geiriau allweddol ac ymadroddion hanfodol, gan sicrhau bod staff yn cynnal cywirdeb o ran proses ac ynganiad. Maent hefyd yn rhoi cyfle gwerthfawr i staff fireinio eu cyfarchion ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt. Mae'r fenter wedi cael ei derbyn yn frwdfrydig, gan arwain at hwb amlwg yn hyder staff wrth ymdrin â galwadau ar y llinell ffôn Gymraeg.

Safon 22: Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gan gorff ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg

Mae'r Swyddog Polisi Cymraeg bellach yn gyfrifol am gofnodi pob neges ffôn wedi ei hawtomeiddio newydd. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a chydymffurfedd llawn â gofynion y Gymraeg ar draws y system, gan gynnwys gwasanaethau negeseuon llais ar gyfer ysgolion yn yr ardal.

Safonau 52–57: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff

Rhaid i gorff sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein ar gael ac yn gwbl weithredol yn y Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny ac yn y gwasanaethau a ddarperir ar-lein

Drwy gydol y cyfnod adrodd hwn, mae ein Tîm Datblygu Sefydliadol wedi bod yn ymroddedig i integreiddio porth recriwtio newydd i wefan Blaenau Gwent. Yn unol â safonau'r Gymraeg, mae'r Swyddog Polisi Cymraeg a'r Swyddog Cymorth Cymraeg wedi bod yn ymwneud yn weithredol â phrofion i sicrhau bod y swyddogaeth Gymraeg yn gwbl weithredol ac yn cael triniaeth gyfartal â'r cynnwys Saesneg. Y tu hwnt i fonitro cydymffurfedd yn ystod y gwaith datblygu, mae'r porth hefyd wedi gwella ein proses recriwtio trwy ddileu'r angen am ffurflenni ychwanegol ar gyfer ceisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg, gan ddarparu profiad llyfnach i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg.

Safon 81: Rhaid i gorff hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i annog trigolion i ymgysylltu â'n gwasanaethau yn y Gymraeg, gan adeiladu ar lwyddiant ymgyrch 'Pa bynnag ffordd...' y llynedd:



Fel rhan o'n hymdrechion parhaus i wella cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg, ffocws allweddol fu gwella ein gwasanaethau ffôn Cymraeg. Er mwyn cryfhau hyder wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, mae nifer o staff ein canolfan gyswilt a'n hyb cymunedol wedi bod yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg wythnosol dan arweiniad tiwtoriaid drwy'r *Cynllun Dysgu Cymraeg*.

Er bod nifer y galwadau a dderbynnir yn y Gymraeg yn parhau i fod yn gymharol isel yn ein hardal, rydym yn hyrwyddo defnydd o'r llinell ffôn Gymraeg yn rhagweithiol. P'un a ydych yn rhugl neu'n dysgu, anogir trigolion a staff fel ei gilydd i fanteisio ar y gwasanaeth hwn. Adlewyrchir y fenter hon yn ein cyfathrebiadau diweddaraf, gan gynnwys [y fideo hon](#), sy'n tynnu sylw at y camau rydym wedi'u cymryd i wella'r ffyrdd y cyflenwir gwasanaethau.



4 We aim to meet the needs of our Welsh speaking residents in the most efficient way.

Why not try making your next call to us in Welsh?



4 We aim to meet the needs of our Welsh speaking residents in the most efficient way.

Our contact centre staff are still learning and would appreciate the opportunity to practice.



4 Anelwn i gwrdd ag anghenion ein trigolion Cymraeg eu hiaith yn y modd mwyaf effeithlon

Beth am wneud eich galwad nesaf i ni yn Gymraeg?



4 Anelwn i gwrdd ag anghenion ein trigolion Cymraeg eu hiaith yn y modd mwyaf effeithlon

Mae staff ein canolfan gyswilt yn dal i ddysgu a byddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymarfer.



Yn ogystal, rydym wedi bod yn gweithio i gynyddu ymgysylltiad â thudalen cyfryngau cymdeithasol Gymraeg Blaenau Gwent. Drwy ehangu ei chyrhaeddiad, ein nod yw sefydlu sianel gyfathrebu ac ymgynghori uniongyrchol â thrigolion sy'n siarad Cymraeg yn y dyfodol. Mae deunyddiau hyrwyddo, fel y poster isod, wedi'u rhannu'n fewnol ac yn allanol, ac mae ein Swyddog Cymorth Cymraeg yn parhau i ysgogi ymgysylltiad trwy waith allgymorth ar lawr gwlad.



2.2 Safonau Ilunio polisïau

Adolygu'r polisi cyfieithu

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r polisi cyfieithu wedi'i ddiweddarau, sydd wedi cynnwys adolygiad trylwyr o ddarparwyr cyfieithu allanol. Mae'r adolygiad wedi sicrhau bod pob darparwr yn cynnal y cymwysterau angenrheidiol a bod eu gwybodaeth gyswllt a chost yn parhau i fod yn gyfredol. Yn wahanol i sawl awdurdod cyfagos, mae Cyngor Blaenau Gwent yn dibynnu'n llwyr ar gyfieithwyr Cymraeg allanol.

Fel rhan o'r adolygiad polisi, gwnaed penderfyniad i weithio gyda darparwyr sydd wedi'u hachredu gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn unig. Roedd y dewis hwn yn seiliedig ar safonau llym y gymdeithas, sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelodau ddangos cymhwysedd proffesiynol trwy basio ei phroses arholi yn llwyddiannus – yr unig lwybr i aelodaeth – ac mae wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

2.3 Safonau gweithredu

Hyfforddiant

Safon 130: Rhaid i gorff ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith:

- i'w gyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, ac
- i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr

Safon 131: Rhaid i gorff ddarparu cyfleoedd i'w gyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.

Safon 132: Rhaid i gorff ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'w gyflogeion ddatblygu:

- Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg
- Dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Dysgu Cymraeg

Rydym yn annog pob aelod o staff i gymryd rhan mewn hyfforddiant Cymraeg drwy ein darparwr, Dysgu Cymraeg, boed drwy gwblhau modiwlau hunanastudio ar-lein neu gymryd rhan mewn cyrsiau dan arweiniad tiwtor.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae un dosbarth Cymraeg ar-lein wedi symud ymlaen i Lefel Mynediad 2, ac mae 11 aelod newydd o staff wedi llwyddo i gwblhau modiwlau hunanastudio ar-lein.

Mae cyrsiau sydd ar ddod, ynghyd â'r modiwlau statudol a ddarperir gan Dysgu Cymraeg, yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd trwy gylchlythyrau staff a briffiau rheolwyr.

Anogir yr holl staff i gymryd rhan mewn rhyw lefel o hyfforddiant Cymraeg trwy ein darparwr hyfforddiant [Dysgu Cymraeg](#).

Cyfle Hyfforddiant a Chymorth yr Iaith Gymraeg

Oes gennych chi rywaint o sgiliau yn y Gymraeg? A ddysgoch chi'r Gymraeg yn yr ysgol a hoffech chi roi hwb i'ch hyder i'ch helpu i'w defnyddio'n fwy?

Ydych chi wedi bod yn dysgu ond hoffech chi gael hwb ychwanegol i'ch hyder i'r lefel nesaf, ar gyfer gwaith ac i'w ddefnyddio'n gymdeithasol?

**Gan ddechrau ym mis Medi mae gennym Gwrs Mynediad
AM DDIM dan arweiniad tiwtor ar gael i'r holl staff.**

Cymraeg

Oes gennych chi rywaint o sgiliau yn y Gymraeg? A ddysgoch chi'r Gymraeg yn yr ysgol a hoffech chi roi hwb i'ch hyder i'ch helpu i'w defnyddio'n fwy?

Dyfyniad gan un o'n staff sy'n siarad Cymraeg ac sydd wedi bod yn cynnig cefnogaeth i rai o'n dysgwyr, Owain Thomson:

"I try to start every interaction online with some Welsh words, so people know I speak the language, and I've enjoyed the opportunity to talk to learners and suggest Welsh songs and podcasts to show the informal side of learning a new language."

"Apart from that, I would always support increasing opportunities to meet other learners and speakers in order to speak Welsh and celebrate the culture."

Rydw i'n trio dechrau pob rhyngweithiad ar lein gyda rhyw faint o eiriau Gymraeg fel bod pobl yn gwybod dwi'n siarad yr iaith, a 'dwi wedi mwynhau cael cyfle i siarad â dysgwyr ac awgrymu caneuon a podlediadau Gymraeg er mwyn dangos yr ochor llau ffurfiol o ddysgu iaith Newydd.

Heb law am hynni, byddai wastad yn cefnogi cynyddu cyfleoedd i gwrdd â dysgwyr a siaradwyr eraill er mwyn siarad Cymraeg a dathlu'r diwylliant.

Bydd ein Swyddog Iaith Gymraeg hefyd wrth law i gynnig unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen.

Cysylltwch â'n Swyddog Iaith Gymraeg am ragor o wybodaeth ar sut i gofrestru eich diddordeb neu am unrhyw geisiadau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg:

Vikki.alexander@blaenau-gwent.gov.uk



Blaenau Gwent
County Borough Council

Sesiynau cymorth i staff

Mae ein Swyddog Cymorth Cymraeg wedi ymrwymo i gynorthwyo dysgwyr a staff sydd â diddordeb yn y Gymraeg. Gydag ymrwymiad cryf i gymorth iaith, mae'n sicrhau bod pob unigolyn sy'n cymryd rhan mewn dysgu yn ymwybodol ei fod ar gael i ateb ymholiadau, rhoi arweiniad, ac argymhell ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â'r iaith.

Cynhelir sesiynau cymorth misol, sy'n amrywio rhwng cynnig fformatau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r sesiynau hyn ar gael i staff o bob lefel hyfedredd, gan gynnig amgylchedd strwythuredig ond croesawgar ar gyfer datblygu sgiliau ieithyddol.

Ymarfer eich Gymraeg Sesiwn cinio	Practice your Welsh Lunchtime session
Ystafell Hot Mills yn y Swyddfeydd Cyffredinol	Hot Mills room in the General Offices
12.00 - 2.00yp 29ain o Orffennaf	12.00-2.00pm 29th July
Croeso i siaradwyr Cymraeg, dysgwyr ar rai sydd â diddordeb.	Open to Welsh speakers, learners and those interested to learn.
• Ymunwch a ni am y cyfle i ymarfer eich Gymraeg • I wella eich sgiliau trwy sgwrsio gyda siaradwyr a dysgwyr Cymraeg arall. • Dewch ach cinio a fwynhewch sgwrs anfurfiol. • Mae Cymraeg i bawb sdim ots pa lefel, am fwy o wybodaeth: vikki.alexander@blaenau-gwent.gov.uk	• Join us for an opportunity to practice the Welsh you have learnt. • Improve your skills by chatting to other learners and fluent speakers. • Bring your lunch and enjoy an informal chat. • Welsh is for everyone no matter your skill level for more information contact: vikki.alexander@blaenau-gwent.gov.uk
DOES DIM ANGEN BWCIO	NO NEED TO BOOK

Sesiwn friffio i'r Tîm Arwain Corfforaethol Ehangach

Fel rhan o fenter Tîm Polisi'r Gymraeg i wella'r defnydd bob dydd o'r Gymraeg yn y gweithle, rhoddwyd pwyslais cryf ar arweinwyr yn gosod patrwm enghreifftiol. Cyflwynwyd sesiwn friffio i'r Tîm Arwain Corfforaethol Ehangach, gyda'r nod o annog rheolwyr i blethu'r Gymraeg i'w rhyngweithiadau dyddiol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio ymadroddion cyffredin yn y Gymraeg, agor a chau cyfarfodydd yn y Gymraeg, sicrhau bod staff yn cadw at ganllawiau cydymffurfio'r Gymraeg, ac ystyried

cymryd rhan mewn hyfforddiant Dysgu Cymraeg. Y nod yw creu gweithle mwy cynhwysol yn ieithyddol ac ysbrydoli mwy o ymrwymiad i ymgysylltu dwyieithog.

Leading by Example
Welsh Language Support Session
Wider Corporate Leadership Team
24th of October 2024

Do your team....

- ☒ know where to find Welsh language guidance?
- ☒ have bilingual signatures?
- ☒ use the bilingual out of office messages?
- ☒ keep their itrent skills assessment up to date?

Opening Meetings

English	Cymraeg
Good Morning	Bore Da
Good Afternoon	Prynhawn Da
Everyone	Pawb
Welcome	Croeso
Ladies and Gentlemen	Boneddigion a Boneddigesau

Today

Cymraeg
Braf cwrdd â chi gyd heddiw
Mae'n bleser gen i fod yma
Mae'n bleser gen i groesawi....
Diolch i chi i gyd am ymuno â ni
Diolch am y croeso gynnes

Gwaith gydag aelodau etholedig

Mae cadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau craffu wedi cael eu hannog i agor a chau cyfarfodydd yn ddwyieithog a dangos defnydd ymarferol o'r Gymraeg mewn lleoliadau swyddogol.

Thinqi

Ar y cyd ag awdurdodau cyfagos, mae Cyngor Blaenau Gwent wedi mabwysiadu porth hyfforddi newydd, Thinqi.

thinqi

Mae'r porth hyfforddi ar-lein yn darparu monitro gwell o nifer y gweithwyr sy'n derbyn hyfforddiant, gan sicrhau bod staff yn parhau i ymgysylltu â'r modiwlau gofynnol. Anfonir nodiadau atgoffa awtomatig at bob gweithiwr, gan eu hannog i gwblhau ac ailymweld â'r hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae'r modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn rhan allweddol o'r cwricwlwm 'Dysgu Hanfodol' i bob

aelod o staff. Isod mae siart sy'n crynhoi nifer y gweithwyr sydd wedi cwblhau'r modiwl hyd yn hyn.

Cyfarwyddiaeth	Nifer y staff
Gwasanaethau Corfforaethol	217
Addysg	305
Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol	347
Gwasanaethau Cymdeithasol	317
Cyfanswm	1,186 (40% o'r holl staff)

Swyddi a hysbysebwyd

Safon 136: Pan fydd corff yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid iddo asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd lle mae un neu ragor o'r canlynol yn gymwys:

- Mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
- Mae angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd
- Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol
- Nid yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyhoeddwyd cyfanswm o 285 o hysbysebion swyddi, gyda 284 yn nodi bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol ac un yn nodi bod sgiliau yn y Gymraeg wedi'u hasesu fel rhai sy'n hanfodol. Mae'r nifer isel yn dangos yr angen i'r Tîm Polisi adolygu'r Ffurflen Awdurdodi Recriwtio ymhellach, er mwyn sicrhau bod y gwiriadau gwydnwch o ran y Gymraeg yn cael eu cwblhau'n gywir gan reolwyr wrth adolygu sgiliau iaith rolau swyddi newydd.

2.4 Safonau cadw cofnodion [147–154]

Safon 147: Rhaid i gorff gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion y mae'n eu cael sy'n ymwneud â'i gydymffurfedd â'r safonau.

Cŵyn am y gwasanaethau llyfrgell – CS1271

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, derbyniodd y cyngor un gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch darpariaeth Gymraeg a chydymffurfedd â safonau'r Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â mynediad at wasanaeth Cymraeg yn Llyfrgell Tredegar. Gan fod llyfrgelloedd Blaenau Gwent yn cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ar ran y cyngor, mae'n ofynnol iddynt lynu wrth god ymarfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Ar 24 Mehefin 2024, hysbysodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg y cyngor am y gŵyn. Cadarnhaodd y llyfrgell fod cymorth Cymraeg ar gael a bod aelod o staff sy'n ddwyieithog yn cael ei gyflogi. Fodd bynnag, gan na chodwyd y mater ar y pryd, nid oedd y staff yn gallu mynd i'r afael ag ef. Ar ôl cynnal adolygiad, penderfynodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn erbyn ymchwiliad ffurfiol, ond atgoffwyd y staff o'u cyfrifoldebau o ran y Gymraeg, gyda chymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu.

Ar 22 Awst 2024, cododd Aelod o'r Senedd o Blaid Cymru y mater gydag Arweinydd y Cyngor. Mewn ymateb, ymrwymodd y cyngor ac Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin i gryfhau darpariaethau Cymraeg drwy flaenoriaethu recriwtio dwyieithog a gwella mesurau cydymffurfio o fewn y cytundeb rheoli.

Cynigiodd y cyngor yr opsiwn i'r achwynydd ymgysylltu'n ffurfiol drwy ei broses gwyno, ond ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Mae ymdrechion yn parhau i wella darpariaeth gwasanaethau Cymraeg drwy hyfforddi staff a chynnig cymorth strwythuredig.

Ymchwiliad i gydymffurfedd Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin – CS1170

Lansiodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad CS1170 ym mis Mehefin 2024 ar ôl derbyn cwyn gyhoeddus ym mis Gorffennaf 2023 ynghylch defnydd cyfyngedig Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin (“yr ymddiriedolaeth”) o’r Gymraeg ar draws y canlynol:

- Ei gwefannau
- Ei chyfryngau cymdeithasol
- Ei harwyddion ym Mharc Bryn Bach

Mewn ymateb i’r gŵyn a’r canfyddiadau drafft dilynol, eglurodd y cyngor nad oedd yn gyfrifol am unrhyw un o bedair gwefan na chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ymddiriedolaeth. Esboniodd y cyngor fod yr ymddiriedolaeth yn gweithredu fel sefydliad elusennol gyda swyddogaethau amrywiol o dan ei statws elusennol neu gangen fasnachu a bod y rhain yn annibynnol ar drefniadau llywodraethu’r cyngor.

Er mwyn mynd i’r afael â phryderon a godwyd yn y canfyddiadau drafft, sicrhodd y cyngor swyddfa Comisiynydd y Gymraeg fod mesurau cywirol wedi’u cymryd i ddatrys gwallau ar arwyddion a bod Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn gweithio’n weithredol i fodloni safonau’r Gymraeg.

Ym mis Mehefin 2024, cyrhaeddodd yr ymchwiliad benderfyniad terfynol o dan adran 71 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nododd y penderfyniad fod yr ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau a hyrwyddir drwy’r gwefannau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol hyn ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (“y cyngor”) ac yn rheoli’r safle lle gosodwyd yr arwyddion. O ganlyniad, y cyngor sy’n gyfrifol am sicrhau cydymffurfedd â safonau’r Gymraeg.

Nododd yr hysbysiad penderfyniad terfynol y camau gweithredu ac amserlenni gofynnol ar gyfer cydymffurfio, a gofynnodd i’r cyngor, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, weithredu dull

sefydliadol gydag atebolrwydd a llywodraethu clir i ddatblygu cynllun gweithredu. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno oedd 4 Medi 2024.

Cymeradwyodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ddrafft terfynol y cynllun gweithredu ar 20 Medi 2024 o dan adran 80(3)(a) o Fesur y Gymraeg, gyda dyddiad cau cwblhau o 20 Mawrth 2025.

Er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'r cynllun yn cael eu gweithredu, cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng arweinwyr gweithredu bob chwe wythnos. Helpodd y grŵp i yrru cynnydd, cwblhau'r camau gweithredu gofynnol, a gwella cydymffurfedd â rhwymedigaethau Cymraeg y cyngor.

Mae Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu Terfynol Ymchwiliad CS1170 (Atodiad 1) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r camau gweithredu a gynlluniwyd rhwng mis Medi 2024 a mis Mawrth 2025, ynghyd â chrynodeb o'r camau yn y dyfodol.

Derbyniwyd cadarnhad gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar 20 Mawrth 2025 fod ymchwiliad CS1170 wedi'i gau ac nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Ymchwiliad i gydymffurfedd Cyngor Blaenau Gwent – CS092

Agorwyd ymchwiliad CS092 (“yr ymchwiliad”) gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2021 yn dilyn pryderon a godwyd yn ystod asesiad gwirio uniongyrchol ynghylch a oedd y cyngor yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg o ran darparu gwasanaeth ffôn Cymraeg.

Ym mis Ebrill 2022, darparodd y cyngor ymateb cychwynnol i'r ymchwiliad, a gododd bryderon pellach ynghylch cydymffurfio o ran hyrwyddo gwasanaethau, asesu sgiliau iaith staff, darparu cyfleoedd hyfforddi ac asesu anghenion iaith swyddi. Arweiniodd hyn at ehangu cylch gorchwyl yr ymchwiliad i gynnwys nifer o safonau gweithredu ychwanegol.

Ym mis Medi 2022, darparwyd penderfyniad terfynol yr ymchwiliad, yn unol ag adran 77 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'r cyngor. Amlinellodd y penderfyniad y camau sydd eu hangen i gyrraedd cydymffurfedd a'r amserlenni cyflawni disgwyledig. Gofynnodd hefyd i'r cyngor fwrw ymlaen â dull sefydliadol (gan gynnwys fframwaith atebolrwydd a llywodraethu clir) i ddatblygu cynllun gweithredu, gyda dyddiad cau o 31 Ionawr 2023. Cyflwynwyd y cynllun gweithredu drafft terfynol i'r Tîm Arwain Corfforaethol i'w ystyried a'i gymeradwyo ar 26 Ionawr 2022. Cymeradwyodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yr adroddiad ar 5 Ebrill 2023.

Mae Adroddiad Cynnydd Terfynol CS092 (Atodiad 2) yn darparu safbwynt terfynol ar weithredu'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun, ac fe'i cyflwynwyd i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ystyried cau'r achos.

Derbyniwyd cadarnhad gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar 1 Gorffennaf 2024 fod ymchwiliad CS092 wedi'i gau.

Er mwyn cydnabod bod yr achos wedi'i gau'n llwyddiannus a chynnal momentwm yr ymdrechion a arweiniodd at hyn, rhannwyd yr wybodaeth ganlynol gyda holl ddefnyddwyr e-bost y cyngor:

O Ymchwiliad i Ysbrydoliaeth: Taith Gymraeg Blaenau Gwent!



Yn 2022, edrychodd Comisiynydd y Gymraeg ar Gyngor Blaenau Gwent i weld pa mor dda yr oeddent yn bodloni'r safonau'r Gymraeg. Sbardunodd hyn daith anhygoel o adfywio'r Gymraeg yn yr ardal, gan arwain at frwdfrydedd newydd ac ysbrydoli newidiadau yn ein gwasanaethau cyhoeddus.

Fel rhan o'n hymateb i ymchwiliad agored, fe wnaethom greu cynllun gweithredu deinamig i integreiddio'r Gymraeg yn ein holl waith. Ffuriodd aelodau brwdfrydig o wahanol adrannau 'grŵp craidd' i hyrwyddo'r genhadaeth hon a sicrhau llwyddiant y cynllun.

Dyma beth rydyn ni wedi'i gyflawni hyd yn hyn:



Mae ein prif systemau ffôn a'n canllawiau staff wedi'u diweddaru, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ateb galwadau yn ddwyieithog.



Derbyniodd staff sy'n wynebu cwsmeriaid hyfforddiant wythnosol trwy Dysgu Cymraeg, ac mae llawer yn symud ymlaen i hyfforddiant uwch ym mis Medi!



Derbyniodd staff sy'n wynebu cwsmeriaid hyfforddiant wythnosol trwy Dysgu Cymraeg, ac mae llawer yn symud ymlaen i hyfforddiant uwch ym mis Medi! Edrychwch ar y polisi hyfforddi newydd neu estynnwch allan i'r tîm polisi i ddod o hyd i'ch llwybr dysgu.




Rydym wedi sefydlu Sianel Teams lle gall staff ddod o hyd i siaradwr Cymraeg yn gyflym i ymdrin â galwadau yn Gymraeg – rhowch wybod i ni os ydych chi am ymuno.



Edrychwch ar y polisi hyfforddi newydd neu estynnwch allan i'r tîm polisi i ddod o hyd i'ch llwybr dysgu.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd cadw asesiadau sgiliau iTrent yn gyfredol, wedi'u halinio â'r fframwaith sgiliau Cymraeg newydd.

Ym mis Gorffennaf 2024, ar ôl taith hir, fe wnaethom gyhoeddi'n falch bod yr ymchwiliad wedi'i gau, ac roedd ein cynllun gweithredu yn bodloni'r comisiynydd. Ond dydyn ni ddim yn stopio yma! Gadewch i ni barhau â'r daith anhygoel hon a pharhau i wella ein gwasanaethau Cymraeg. Cadwch lygad ar dudalen fewnrwyd canllawiau Cymraeg a chadw i fyny â'r gwaith gwych!



**Cadwch lygad ar dudalen fewnrwyd canllawiau Cymraeg a chadw i fyny â'r gwaith gwych.
E-bost: cymraeg@blaenau-gwent.gov.uk am ragor o wybodaeth neu gymorth**

3 Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ledled Cymru ddatblygu strategaeth sy'n manylu ar sut y byddant, mewn cydweithrediad â'u partneriaid, yn hyrwyddo'r Gymraeg, yn ei gwneud yn fwy amlwg, ac yn creu cyfleoedd i ymgysylltu â'r iaith a'i diwylliant. Mae ein strategaeth yn cyd-fynd â tharged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050.

Ar hyn o bryd, mae Blaenau Gwent wedi cyrraedd pedwaredd flwyddyn ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae amcanion y strategaeth – ochr yn ochr â data ansoddol a meintiol – wedi'u hintegreiddio i brosesau cynllunio busnes y sefydliad. Cyflwynwyd y dull hwn i gryfhau ymdrechion monitro, gwella atebolrwydd ar draws adrannau, a sicrhau bod nodau ac amcanion y strategaeth yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Sefydlwyd y trefniadau gwell hyn yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2023–24, lle daeth yr angen am well monitro ac adrodd symlach yn amlwg. Cafodd y dull newydd ei gydnabod a'i ganmol gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, a wahoddodd y tîm wedi hynny i siarad yn ei seminar genedlaethol ar safonau hyrwyddo. Cafodd y sesiwn groeso da ac ysbrydolodd sawl awdurdod lleol i fabwysiadu ein harferion gorau.

STAFF NEWS 2025

NEWYDDION DDA – GOOD NEWS!

Blaenau Gwent's Welsh Language Promotion Strategy and monitoring arrangements were identified in The Welsh Centre for Language Planning – IAITH's survey into all local authorities in Wales as an example of good practice.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

When drafting the last Welsh Language Annual Report, it was acknowledged that the monitoring arrangements for the Promotion Strategy aims were in need of strengthening. With the excellent support of the Performance Team the strategy's aims were embedded into the council's business plans, making sure the Welsh language was everyone's business!

Following IAITH's recognition of this as an example of good practice we were approached by the Welsh Language Commissioner's Office to deliver a presentation to all local authorities Welsh language and policy departments across Wales. This session was very well received and has encouraged a number of local authorities to follow our example of best practice! Da iawn pawb!

Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg

Ar ddechrau 2024, ceisiodd y Tîm Polisi gyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i dalu am dreuliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a chefnogi gweithgareddau swyddog cymorth Cymraeg o fewn y cyngor. Ym mis Mawrth 2025, cawsom gadarnhad o'n cais llwyddiannus am gyllid, gan sicrhau cyflogaeth barhaus i'n swyddog cymorth am flwyddyn arall.

Mae'r cyllid hwn wedi cryfhau gallu'r Tîm Polisi i weithredu'r amcanion a amlinellir yn Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Elfen allweddol o'r ymdrech hon yw ein cynllun cyfathrebu, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cyfoeth y Gymraeg a'i diwylliant – o fewn ein sefydliad, i'r cyhoedd yn ehangach, a thrwy ein sianeli addysg.

Rhan annatod o'r fenter hon yw calendr dathliadau a thraddodiadau Cymru, a amlinellir isod.

Calendr Dathliadau Cymreig

						
Ion	Chwe	Maw	Ebrill	Mai	Meh	
<u>1af Calennig Rhoi</u> <u>Anrhegion</u> <u>Blwyddyn Newydd</u> 25ain <u>Diwrnod Santes</u> <u>Dwynwen</u> 31ain <u>Dechrau'r</u> <u>Bysby Chwe gwlad</u>	7fed <u>Dydd Miwsig</u> <u>Cymru</u> 	1af <u>Diwrnod Dewi</u> <u>Sant</u> 	14eg <u>Diwrnod</u> <u>Cenedlaethol</u> <u>Bara Lawr</u> 	1af Calan Mai <u>Diwrnod 1af Haf</u> 14eg <u>Diwrnod</u> <u>Dylan Thomas</u> <u>Eisteddfod yr</u> <u>Urdd</u>	<u>Balchder Cymru</u> 	
Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	
<u>Eisteddfod</u> <u>Byngwladol</u> <u>Llangollen</u> 5ed 1948 NHS was established 	<u>Eisteddfod</u> <u>Genedlaethol</u>	16eg <u>Diwrnod Owain</u> <u>Glyndwr</u> 	15fed <u>Diwrnod</u> <u>Shwmae</u> <u>Su'mae</u> 31ain <u>Noson Calan</u> <u>Gaeaf</u>	1af Nos <u>Calan Gaeaf</u> 15fed <u>Penblwydd</u> <u>Aneurin Bevan</u>	Y Fari Lwyd 25ain <u>Plygain</u> <u>Gwasanaeth</u> <u>Carolau</u> <u>Cymraeg</u>	 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Gweler isod rai enghreifftiau o'r prosiectau cyfathrebu allweddol sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Dydd Miwsig Cymru 2025

Mae Dydd Miwsig Cymru yn ddigwyddiad blynyddol a gynhelir ym mis Chwefror sy'n dathlu pob math o gerddoriaeth Gymraeg. Eleni, cynhaliwyd y dathliad ar 7 Chwefror a chafodd ei groesawu'n galonnog gan y fwrdeistref, gan gynnwys trwy ryddhau 'anthem' gyntaf Blaenau Gwent, a ysgrifennwyd a'i pherfformio gan gynrychiolwyr o bob ysgol gynradd yn y fwrdeistref.

Bob blwyddyn, mae'r cyngor yn cynnal tair sesiwn Uwch-Gyngor i blant yn y Swyddfeydd Cyffredinol, lle mae aelodau cyngor ysgolion cynradd yn dod ynghyd i ddysgu, cydweithio, a gweithio ar wahanol brosiectau. Ar 27 Tachwedd 2024, ymunodd y cerddor Mei Gwynedd â'r sesiwn, gan arwain myfyrwyr trwy'r broses o lunio geiriau'r anthem. Rhannodd y plant yr hyn yr oedd Blaenau Gwent yn ei olygu iddynt – eu hoff leoedd, traddodiadau a phrofiadau – gan ddal hanfod eu cymuned mewn cân.



Ar ôl y sesiwn, dechreuodd Mei gyfansoddi'r gerddoriaeth gyfeilio, yn barod i ddychwelyd ar gyfer digwyddiad ffilmio arbennig mewn Uwch-Gyngor Plant Eithriadol ar 31 Ionawr. Y diwrnod hwnnw, rhannodd y myfyrwyr yn grwpiau llai, gan gymryd eu tro i recordio

penillion mewn ystafell a oedd â chyfarpar sain Mei, tra oedd eraill yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn archwilio cerddoriaeth Gymraeg trwy fideos, taflenni gwaith, cwisiau ac ymarferion creadigol.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, gan roi profiad artistig cyfoethog i fyfyrwyr wrth ddyfnhau eu gwerthfawrogiad o gerddoriaeth Gymraeg a'i harwyddocâd i ddiwylliant eu gwlad.






Gweler y fideo cerddoriaeth [yma](#) neu cliciwch ar y ddelwedd isod.



Mae'r anthem yn waddol i'r ysgolion, yn dathlu ysbryd lleisiau ifanc a'u cymuned. Drwy gynnig dull creadigol i fynegi teimladau a thraddodiad i'w gario ymlaen, mae'n anrhydeddu ein gorffennol cyfoethog wrth baratoi'r llwyfan ar gyfer dyfodol ysbrydoledig.

Crëwyd Ilyfryn Dydd Miwsig Cymru a'i rannu gyda'r holl ysgolion i arddangos y geiriau a'r fideo a grëwyd a chynnig rhywfaint o wybodaeth am beth yw Dydd Miwsig Cymru a sut i ddathlu'r diwrnod.

=



Diwrnod Cenedlaethol Caws Pob

Mae caws pob yn saig draddodiadol ond eiconig o Gymru sydd wedi cael ei mwynhau ers canrifoedd. Mae'n gyfuniad o gaws poeth wedi'i doddi ar dost gydag ychydig o ychwanegiadau. Mae rhai'n dal i'w alw'n gaws moethus ar dost. Fodd bynnag, mae caws pob wedi sefyll prawf amser, gan esblygu i fod yn greadigaeth goginiol annwyl sy'n cael ei mwynhau ledled y byd.

Oherwydd ei wreiddiau yn nhreftadaeth Cymru, mae'r wlad yn dathlu ['Diwrnod Cenedlaethol Caws Pob'](#) ar 3 Medi bob blwyddyn, ac eleni cafodd y cyngor un o'n cartrefi preswyl i gymryd rhan yn y dathliadau. Cafodd trigolion Cartref Gofal Cwrt Mytton yn Abertyleri eu diddanu gan Jonny Bevan, a berfformiodd nifer o ganeuon, gan orffen gyda pherfformiad pwerus o'r anthem genedlaethol ar ôl cael bwydydd blasus o Gymru.

Llwyddodd y cyngor i ariannu'r cynhwysion a ddarparwyd i gogyddion talentog Cwrt Mytton, a weinodd gaws pob gyda bara cartref ynghyd â chawl cennin a thatws, gyda bara brith a phice ar y maen i orffen.

Roedd yr ŵyl syml hon yn gyfle gwych i estyn allan at y genhedlaeth hŷn a chofleidio'r diwylliant a'r iaith trwy gerddoriaeth, a chynigiodd gyfle i'r swyddogion Cymraeg ymgysylltu â'r trigolion. Fel y gwelir isod, roedd y digwyddiad hwn yn llawn hwyl ac yn ffordd wych o dynnu sylw at ba mor weithgar yw'r diwylliant o fewn y gymuned.






Dydd Gŵyl Dewi

Dathliad ysgolion yn Sinema Neuadd y Farchnad

Ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, partnerodd Cyngor Blaenau Gwent â Chyngor Tref Bryn-mawr i greu dathliad bywiog ar gyfer ysgolion cynradd lleol yn Sinema Neuadd y Farchnad. Dangosodd y myfyrwyr eu doniau trwy ganu caneuon Cymraeg, adrodd barddoniaeth, a mwynhau perfformiad telyn hudolus, wrth gael hwyl hefyd trwy baentio wynebâu. Roedd y digwyddiad yn deyrnged o galon i falchder y gymuned yn ei hiaith a'i diwylliant. I gloi'r dathliadau, derbyniodd pob myfyriwr ddreigiau balŵn, baneri, cennin Pedr, a phice ar y maen traddodiadol – ffordd berffaith o ddathlu'r diwrnod.



Cliciwch ar y ddelwedd isod i wyllo'r [fideo](#):



DYDD GŴYL DEWI HAPUS

Rydym yn gyffrous i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, diwrnod a gysegrwyd i nawddsant Cymru. Dyma rai uchafbwyntiau a gweithgareddau i edrych ymlaen atynt:

Cefndir Timau

I ychwanegu naws Nadoligaidd at eich cyfarfodydd rhithwir, rydym yn annog pawb i ddefnyddio cefndir arbennig ar thema Dydd Gŵyl Dewi ar Microsoft Teams.

Hen Wlad Fy Nhadau - sing the Welsh national anthem

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri Ei gerol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mād Tros ryddid gollasant eu gwaed	This land of my fathers is dear to me Land of poets and singers, and people of stature Her brave warriors, fine patriots Shed their blood for freedom
Gwlad, gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad Tra môr yn fur i'r bur hoff bau O bydded i'r henlaith barhau	Land, Land! I am true to my land! As long as the sea serves as a wall for this pure, dear land May the language endure for ever.



Anthem Genedlaethol

Gadewch i ni gofleiddio ysbryd y dydd trwy ganu'r Anthem Genedlaethol, "Hen Wlad Fy Nhadau". Dyma'r geiriau i chi gyd-ganu:

Sesiwn Canu ar gyfer Lles ar Thema Gymreig

Ymunwch â ni am sesiwn arbennig ar thema Gymreig Canu am Les i staff ar 5ed o Fawrth. Mae'n gyfle gwyb i ddod at ein gilydd, mwynhau cerddoriaeth, a hybu ein lles.



Cennin Pedr Marie Curie

Cefnogwch achos gwyb trwy brynu Marie Curie Cennin Pedr, ar werth yn y Swyddfeydd Cyffredinol ac ICC Blaenau. Bydd eich cyfraniadau yn helpu i ddarparu gofal a chymorth hanfodol i'r rhai mewn angen.

Digwyddiadau Lleol

Yn ystod hanner tymor a'r wythnos wedyn, mae cymaint yn digwydd yn y gymuned i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mwynhewch Te prynhawn ar thema Dydd Gŵyl Dewi a pherfformiadau corawl yn Tŷ a Pharc Bedwellte, dathliadau lleol gyda'r ysgol plant yn Neuadd y Farchnad Brynmawr, a chyngerdd yn Eglwys St Michael's, Abertyleri. Cadwch lygad ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol am ddiweddariadau ar amrywiol digwyddiadau lleol yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae rhywbeth ar gyfer pawb i fwynhau. Dewch i ni ddod at ein gilydd i ddathlu ein treftadaeth a chefnogi ein gymuned a gnewch y pethau bach sy'n eich gwneud chi'n falch o fod Cymraeg. Diolch yn fawr!



Diwrnod Shwmae

Ers 2013, mae Diwrnod Shwmae wedi cael ei ddathlu'n flynyddol ar 15 Hydref, gan annog pobl i gofleidio'r Gymraeg drwy ddechrau sgysiau gyda'r cyfarchiad 'Shwmae'. Datblygwyd y fenter gan Dathlu'r Gymraeg, grŵp cydweithredol o 26 o sefydliadau a chymdeithasau Cymreig sy'n selog dros hyrwyddo'r iaith.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaeth y cyngor Ddiwrnod Shwmae yn flaenoriaeth, yn enwedig o ystyried bod Blaenau Gwent yn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf. Drwy bwysleisio arwyddocâd cyfarchiad Cymraeg syml, ein nod oedd ennyn diddordeb mewn dysgu'r iaith ac annog y rhai sydd â sgiliau Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn fwy hyderus. Cefnogodd y fenter hon ein hymdrechion ehangach i integreiddio'r Gymraeg i ryngweithiadau bob dydd ar draws gweithleoedd, cymunedau a'r sector addysg. Yn fewnol, darparwyd gwybodaeth i staff am bwysigrwydd Diwrnod Shwmae a ffyrdd o gymryd rhan, a manylwyd ar hyn yng nghylchlythyr y staff.

Diwrnod Shwmae 15 Hydref 2024

DIWRNOD SHWMAE

15fed o Hydref

Beth yw ystyr SHWMAE?

Cyfarchiad Cymraeg ydy Shwmae sy'n golygu - Hello - Sut wyt ti? - Iawn?

Wrth gyfarch pobl ar y 15fed o Hydref pam ddim ei wneud yn Gymraeg?

KROWCH GYNIG ARNI!

GIVE WELSH A GO!

Blaenau Gwent

Beth allwch chi ei wneud i ymuno?

- Cyfarchwch bawb welwch chi ar-lein neu wyneb yn wyneb heddiw gyda Shwmae neu un o'r cyfarchion o'r [sleidiau ar y fewnwyd!](#)
- Defnyddiwch y [cefnidir Timau](#) hwn!
- Peidiwch ag anghofio y gallwch ymgymryd â hyfforddiant yn ystod oriau gwaith, rhoi cynnig ar y [sesiynau blasu](#) hyn, neu os ydych eisoes yn defnyddio Duolingo neu SaysSomethingIn rhwch wybod i ni!

Byddem wrth ein bodd yn gweld eich lluniau neu glywed sut yr ydych yn cofreiddio'r diwrnod, gadewch i ni wybod drwy'r blwch post cymraeg@blaenau-gwent.gov.uk neu defnyddiwch [#shwmae24](#) [#shwmaesumae24](#)

Shwmae Day 15 October 2024

SHWMAE DAY

15TH OF OCTOBER

What does SHWMAE mean?

Shwmae is a Welsh greeting that means 'hello', 'how are you?' 'alright?'

When greeting people on the 15th of October why not do it in Welsh?

KROWCH GYNIG ARNI!

GIVE WELSH A GO!

Blaenau Gwent

What can you do to join in?

- Greet everyone you see online or in person today with Shwmae or one of the greetings from the slides on [the intranet!](#)
- Use this [Teams background!](#)
- Don't forget you can undertake training during work hours, give these [taster sessions](#) a go, or if you're already using Duolingo or SaysSomethingIn let us know!

We'd love to see your pictures or hear how you are embracing the day, let us know via the cymraeg@blaenau-gwent.gov.uk mailbox or use [#shwmae24](#) [#shwmaesumae24](#)

Yn fewnol, fe wnaethom annog yr holl staff i wneud ymdrech fwriadol i gyfarch ei gilydd a dechrau eu cyfarfodydd yn y Gymraeg, gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarperir drwy'r fewnwyd. Mae'r weithred syml ond ystyrlon hon wedi cael effaith barhaol, gan ein bod wedi gweld cynnydd amlwg mewn cyfarchion Cymraeg yn ystod cyfarfodydd ac ar draws y swyddfa. I atgyfnerthu ymhellach ein hymrwymiad i Ddiwrnod Shwmae, fe wnaethom greu [fideo](#) yn dangos ein staff gwyh, a rannwyd yn fewnol ac yn allanol fel rhan o'n hymgyrch gyfathrebu.



Cynnwys busnesau

Bu swyddogion polisi'r Gymraeg yn cydweithio'n agos â Thîm Adfywio'r cyngor i annog busnesau lleol i gofleidio Diwrnod Shwmae drwy gyfarch eu cwsmeriaid a'u cleientiaid yn y Gymraeg a defnyddio'r adnoddau a ddarparwyd gennym. Cynhaliwyd ymgysylltu drwy nifer o sianeli, gan gynnwys postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, cynnwys a rennir drwy [wefan yr hwb busnes](#), diweddariadau drwy borth (busnes) Evolutive, a rhyngweithiadau uniongyrchol, wyneb yn wyneb ar draws y fwrdeistref.

Roedd yr ymgysylltu wyneb yn wyneb yn arbennig o werthfawr, gan gryfhau perthnasoedd â busnesau lleol a chaniatáu inni adnabod y rhai â staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg. I gefnogi eu cyfranogiad, fe wnaethom ddatblygu pecynnau adnoddau, a oedd yn cynnwys:

- Llyfrynnau ymadroddion defnyddiol wedi'u teilwra i wahanol sectorau
- [Bathodynau Iaith Gwaith](#)
- Laniardiau dysgwr/siaradwr Cymraeg
- Cardiau yn tynnu sylw at wyliau a thraddodiadau allweddol Cymru
- Arwyddion pren 'Ar Agor' / 'Ar Gau' a 'Croeso' wedi'u crefftio'n lleol
- Gwybodaeth am wasanaethau cyfieithu Helo Blod

- Baneri Diwrnod Shwmae i addurno gweithleoedd
- Taflenni Iliwio

Helpodd yr ymdrechion hyn i integreiddio'r Gymraeg i ryngweithiadau busnes bob dydd, gan feithrin amgylchedd dwyieithog croesawgar.

**DIWRNOD SHWMAE
SU'MAE DAY!**

**DYDD MAWRTH
15FED O
HYDREF**

Ar y diwrnod hwn mae
Cymry yn dangos eu balchder
trwy gyfarch pawb yn Gymraeg -
os ydyn nhw'n siarad yr iaith neu
ddim! Ymunwch â ni i ddweud
'shwmae', 'shwdi', neu 'bore da'
ar y diwrnod arbennig yma!

Eleni mae'r Cyngor yn cynnig pecynnau
adnoddau AM DDIM, a chefnogaeth ymarferol
i fusnesau lleol gofleidio'r diwrnod!

I gael eich pecyn busnes personol cysylltwch:
cymraeg@blaenau-gwent.gov.uk


SHWMAE SU'MAE
RHOWCH GYNNIG ARNI!
GIVE WELSH A GO!

Blaenau Gwent
County Borough Council

Aeth llawer o fusnesau gam ychwanegol yn eu dathliadau, gan ychwanegu eu cyffyrddiad unigryw eu hunain at y dathliadau. Roedd Crystal Café a Kenny's Vinyl Vault yn Abertyleri yn diddanu cwsmeriaid gyda phice ar y maen, diwrnod llawn o gerddoriaeth Gymreig, a sesiynau adrodd straeon diddorol yn y Gymraeg.

Cofleidiodd Sinema Neuadd y Farchnad ym Mryn-mawr ddiwylliant Cymru yn llawn gyda dangosiad arbennig o addasiad Kevin Allen o *Under Milk Wood* gan Dylan Thomas, ac yna sesiwn holi ac ateb unigryw gyda'r cyfarwyddwr ei hun.

Cliciwch ar y ddelwedd isod i wylïo'r fideo, sy'n cofnodi'n dda sut y cofleidiodd busnesau lleol y diwrnod arbennig hwn a chyfrannu at ein cenhadaeth barhaus i wella defnydd o'r Gymraeg a'i hamlygrwydd ar draws y fwrdeistref.



Llyfrgelloedd

Nododd
llyfrgelloedd
ledled Blaenau
Gwent
Ddiwrnod
Shwmae gydag
amrywiaeth o
weithgareddau
AM DDIM, gan
gynnig cyfle i
oedolion a
phlant brofi'r
Gymraeg mewn
lleoliad
diddorol.

 Blaenau Gwent Libraries
16 October 2024 · 📍
Diolch i bawb a gymerodd ran yn ein gweithgareddau diwrnod Shwmae ddoe!
Thank you to everyone who took part in our Shwmae day activities yesterday!
#shwmaesumae24 #BlaenauGwent #blanaugwentlibraries #shwmae #sumae #diolch



croesawgar a
Cynhaliodd

Llyfrgell Tredegar weithdy blasu'r Gymraeg a oedd yn addas i ddechreuwyr, gan gyflwyno'r mynychwyr i eiriau ac ymadroddion sylfaenol. Dathlodd llyfrgelloedd Cwm a Bryn-mawr gyda the Cymreig, tra croesawodd Llyfrgell Cwm Bethan a'i phyped draig swynol, Dewi, ar gyfer sesiwn amser stori Cymraeg arbennig i blant.

I gloi'r dathliadau, roedd gweithgareddau crefft ar gael ym mhob llyfrgell, gan ganiatáu i'r mynychwyr fod yn greadigol wrth gofleidio diwylliant Cymru. Gan ymestyn y dathliadau y tu hwnt i'r diwrnod ei hun, cynhaliodd Llyfrgell Glynebwy ddigwyddiad 'cwrdd â'r awdur' arbennig y penwythnos canlynol, yn cynnwys awdur *The Green Lady of Caerphilly Castle*.

Cynnwys ysgolion

Cofleidiodd ysgolion ledled y fwrdeistref y dathliadau gyda gwasanaethau thema a gweithgareddau deniadol, a chofnodion fideo a gyfrannodd at ein hymdrechion cyfathrebu. Croesawyd y swyddogion polisi Cymraeg hefyd yn Ysgol Gymraeg Tredegar, ein hysgol eginblanhigyn sydd wedi'i lleoli ar hyn o bryd yn ei chartref dros dro yn Nhŷ Bedwellte. Archwiliodd y myfyrwyr ystyr Diwrnod Shwmae, rhannasant eu cariad at y Gymraeg, canasant ganeuon, ac addurnasant baneri i fywiogi eu hystafell ddosbarth am y diwrnod. Mae'r ymweliad arbennig hwn, ynghyd â'r brwdfrydedd a ledaenodd ar draws ysgolion lleol, wedi'i gofnodi'n hyfryd yn y [fideo](#) isod.



Diwrnod Dylan Thomas

Fel rhan o raglen waith eleni ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru, gwahoddodd y cyngor bob ysgol ym Mlaenau Gwent i gystadlu mewn cystadleuaeth i ail-greu cerdd am eu hardal leol yn null y bardd enwog, ac eicon Cymru, Dylan Thomas.



Cyflwynodd dosbarth Blwyddyn 5 yn Ysgol Gynradd Beaufort Hill nifer o gerddi creadigol. Roedd y cerddi'n arddangos dychymyg, creadigrwydd a sgiliau ysgrifennu'r disgyblion am dirnodau lleol fel Castell Caerffili a Chastell Rhaglan. Roedd athrawon Ysgol Gynradd Beaufort Hill mor falch o ansawdd eu cyflwyniadau a'r ymdrech a wnaed gan y disgyblion nes iddynt wahodd y Cynghorydd Sue Edmunds, Aelod y Cabinet dros Addysg, a'r Swyddog Cymorth Cymraeg i wasanaeth arbennig i arddangos eu cerddi a dathlu bywyd Dylan Thomas.

Canodd côr blynyddoedd 5 a 6 berfformiad hyfryd o [weddi Eli Jenkins o Under Milk Wood](#), a berfformiwyd yn berffaith a gydag emosiwn. Canmolodd y Cynghorydd Sue Edmunds yr ysgol ac ymdrechion y disgyblion ac roedd wrth ei bodd yn cyflwyno basged o adnoddau llenyddol i'r dosbarth i barhau â'u gwaith gwyb, a oedd yn cynnwys fersiwn ddarluniadol newydd Cerys Matthews o *Under Milk Wood*, *Welsh Fairy Tales*, *Myths and Legends*, *Poems of Positivity* a *Nature Poems*.



Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Yn ogystal â'r calendr digwyddiadau Cymreig ac ymgyrchoedd cyfathrebu, rydym yn ymdrechu i integreiddio'r iaith ym mhob agwedd ar waith y cyngor. Er enghraifft, roedd digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni yn y Swyddfeydd Cyffredinol yn cynnwys ystod amrywiol o stondinau a gweithgareddau, gan gynnwys lle pwrpasol dan arweiniad ein Swyddog Cymorth Cymraeg. Cafodd staff gyfle i ymgysylltu â cherddoriaeth, gwybodaeth, canllawiau ac adnoddau dysgu Cymraeg, gan ei wneud yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â'r swyddog cymorth ac archwilio ffyrdd o ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.



Anogodd y digwyddiad staff i gofleidio'r Gymraeg yn y gweithle a thu hwnt, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith mewn rhyngweithiadau bob dydd.

Dathlu ein cymuned Gymraeg

Fel rhan o raglen waith y Gymraeg, mae dathlu ein cymuned Gymraeg wedi bod yn ffordd hanfodol o arddangos cyfoeth yr iaith ac ysbrydoli dysgwyr newydd. Drwy gydol y flwyddyn, mae Blaenau Gwent wedi tynnu sylw at deithiau unigolion fel



[Antwn Owen-Hicks](#), [Daniel Minty](#) a [Sarah Merton](#), sef unigolion sydd i gyd wedi cyfrannu at



fywiogrwydd dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae eu straeon yn enghreifftiau pwerus o sut y gall cofleidio'r Gymraeg agor drysau i gyfleoedd newydd, meithrin cysylltiad dyfnach â threftadaeth, a chryfhau cysylltiadau cymunedol. Mae Daniel Minty, er

enghraifft, wedi troi ei daith ddysgu yn yrfa, gan weithio bellach fel swyddog datblygu cymunedol i hyrwyddo ymgysylltiad â'r Gymraeg.



Ochr yn ochr â'r straeon unigol hyn, mae grwpiau Cymraeg fel Caffi Tyleri a'r grŵp dysgwyr Cymraeg ym Mharc Bryn Bach yn darparu mannau croesawgar i ddysgwyr a siaradwyr rhugl fel ei gilydd gysylltu, ymarfer a dathlu'r iaith gyda'i gilydd. Drwy rannu'r profiadau hyn a meithrin ymgysylltiad cymunedol, mae Blaenau Gwent yn parhau i ennyn diddordeb ymhlith darpar ddysgwyr, gan ddangos nad iaith yn unig yw'r Gymraeg ond rhan fyw, esblygol o fywyd bob dydd.



NOSON GYMRAEG TYLERI CYMRAEG EVENING



AT CAFFI TYLERI
(JIM OWEN PAVILION, CWM TYLERI
NP13 1LW)



YN DECHRAU: 13eg o Chwefror
STARTING: 13th February

5:30 - 7pm

For those who have had
little to no contact
with Cymraeg.

7 - 8:30pm

Sgwrs i bawb -
conversation for all



Llên gwerin Cymru: cryfhau traddodiad drwy ddigwyddiadau cymunedol

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cofleidio llên gwerin Cymru fel rhan allweddol o'n rhaglen, gan sicrhau bod y traddodiadau hyn yn parhau'n fywiog yn ein cymuned.

Gaeaf: Cofleidiodd Cyngor Blaenau Gwent Ddydd Santes Dwynwen yn falch, gan ddathlu nawddsant cariadon Cymru fel rhan annatod o'i raglen ddiwylliannol. Gan gydnabod pwysigrwydd gwarchod traddodiadau Cymru, tynnodd y cyngor sylw at y llên gwerin sy'n ymwneud â stori Dwynwen – ei hymroddiad i gariad a fydd. Anogwyd ysgolion a grwpiau lleol i gymryd rhan mewn sesiynau adrodd straeon, creu llwyau cariad traddodiadol, a rhannu barddoniaeth wedi'i hysbrydoli gan dreftadaeth Cymru.



Blaenau Gwent Libraries

January 23 · 🌐

To celebrate St. Dwynwen's Day we have some FREE love themed activities for children this weekend! ❤️

📅 Saturday 25th January 10am – 12pm
At Abertillery, Ebbw Vale and Tredegar Libraries ~
No booking necessary

I ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen mae gennym rai gweithgareddau thema cariad AM DDIM i blant y penwythnos hwn! ❤️

📅 Dydd Sadwrn, 25ain o Ionawr, 10am – 12pm
Yn Llyfrgelloedd Abertillery, Glynebwy a Thredegar ~ Nid oes angen archebu lle

Blaenau Gwent CBC Families First - Blaenau Gwent See less



Ebbw Fawr Learning Community

21h · 🌐

Dathliadau Dydd Santes Dwynwen wedi dechrau yn Ebbw Fawr. Mae'r Criw Cymraeg wedi bod yn brysur yn derbyn archebion, paratoi a dosbarthu rhosynnau i ein cymuned dysgu! Mor hyfryd! 🌹❤️

Dydd Santes Dwynwen celebrations have started in Ebbw Fawr. The Criw Cymraeg have been busy receiving orders, preparing and delivering roses to our learning community. So lovely! 🌹❤️



St. Dwynwen's Day

This week our libraries are celebrating all things love and romance in readiness for St. Dwynwen's Day on Saturday, 25th March, with dedicated book displays encouraging our visitors to fall in love with a good book - or at least cosy up with one this weekend!

For those who don't know, St. Dwynwen is the Welsh patron saint of lovers, and she was a fourth century Welsh princess who lived in what is now the Bannau Brycheiniog (Brecon Beacons) National Park. Dwynwen was rather unlucky in love, and so she prayed for true lovers to have better luck than she did.

To celebrate St. Dwynwen's Day our libraries will be providing free love themed craft activities for children to enjoy on Saturday, 25th January from 10am -12pm at Abertillery, Ebbw Vale and Tredegar Libraries. No booking is necessary, just come along and join the fun!

For more information, call the library:

Abertillery Library [01495 369608](tel:01495369608) | Ebbw Vale Library [01495 369615](tel:01495369615) | Tredegar Library [01495 369613](tel:01495369613)



Dydd Santes Dwynwen

Yr wythnos hon mae ein llyfrgelloedd yn dathlu popeth sy'n ymwneud â chariad a rhant yn barod ar gyfer Dydd Santes Dwynwen ddydd Sadwrn, 25 Mawrth, gydag arddangosfeydd llyfrau pwrpasol yn annog ein hymwelwyr i syrthio mewn cariad â llyfr da - neu o leiaf ymlacio gydag un y penwythnos hwn!

I'r rhai nad ydyn nhw'n gwybod, Santes Dwynwen yw nawddsant cariadon Cymru, ac roedd hi'n dywysoges Gymreig o'r bedwaredd ganrif a oedd yn byw yn yr hyn sydd bellach yn Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Roedd Dwynwen braidd yn anllwus mewn cariad, ac felly gweddiodd am i gariadon gwir gael mwy o lwc nag a gafodd hi.

I ddathlu Dydd Santes Dwynwen bydd ein llyfrgelloedd yn darparu gweithgareddau crefft am ddim ar thema cariad i blant eu mwynhau ddydd Sadwrn, 25 Ionawr o 10am -12pm yn Llyfrgelloedd Abertyleri, Glynebwy a Thredegar. Nid oes angen archebu, dewch draw ac ymunwch â'r hwy!

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch y llyfrgell:

Llyfrgell Abertyleri [01495 369608](tel:01495369608) | Llyfrgell Glynebwy [01495 369615](tel:01495369615) | Llyfrgell Tredegar [01495 369613](tel:01495369613)



Fel rhan o'n rhaglen waith, rydym wedi cydnabod y Fari Lwyd yn weithredol, gan sicrhau bod arwyddocâd dwfn y traddodiad yn cael ei ddeall a'i ddathlu.



Blaenau Gwent CBC

24 December 2024 · 🌐

...

Y Fari Lwyd

One of the weirdest Welsh traditions involves a horse's skull, lots of ribbons and a rap battle – Yes you would be correct if you guessed the Mari Lwyd.

This tradition happens in mid-winter, usually between Christmas day and the 12th night with the earliest account dating back to 1798. The idea was to scare away the darkness and welcome love and laughter into your homes. This generally involved groups taking the Mari Lwyd door to door and having a rap battle or 'pwnco' to gain entrance. The Mari gets invited in and the homeowner provides food and drinks, usually lots of alcohol, so that they gain the favour of the Mari and have plenty of luck for the coming year. For more information and to read about the Blaenau Gwent Baptist minister, who thought it a 'sinful' practice, follow this link: <https://loom.ly/g-aHQNo>



Gwanwyn: I ddathlu Diwrnod Dylan Thomas, rydym wedi hyrwyddo ailadrodd storïau'r Mabinogi drwy ddyfarnu basged lenyddol i Ysgol Beaufort Hill. Mae'r fenter hon yn annog meddyliau ifanc i ymgysylltu â mytholeg gyfoethog Cymru, gan sicrhau bod y straeon chwedlonol yn parhau i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Drwy gefnogi adrodd straeon mewn ysgolion, rydym yn cryfhau traddodiad naratifau llafar, gan sicrhau bod treftadaeth Cymru yn parhau'n fywiog ac yn hygyrch.



Haf: Canolbwyntiodd ein cyfranogiad yn Eisteddiad Cenedlaethol 2024 ym Mharc Ynysangharad ar gefnogi Cymraeg i Bawb fel prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys cynghorau a staff addysg o bob cwr o dde-ddwyrain Cymru gyda'r nod o hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Manteisiodd y cyngor ar y cyfle hwn i dynnu sylw at yr holl ddatblygiadau gwych o fewn addysg Gymraeg ym Mlaenau Gwent. Roedd staff yn gallu rhannu'r diweddariadau cyffrous ynghylch adeiladu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Nhredegar gydag ymwelwyr lleol yn ogystal â'r rhai a oedd wedi teithio o bob cwr o'r DU i fynychu'r ŵyl fawreddog hon. Roedd staff yn ddigon ffodus i fwynhau cerddoriaeth fyw a chwrdd â phobl wych o bob cefndir – nid oedd rhai erioed wedi bod i eisteddfod o'r blaen a gwnaethant sylwadau ar ba mor wych oedd hi. Dyma ddiwylliant Cymru ar ei orau, gyda bandiau gwych a cherddoriaeth fyw ledled y safle, ac ymweliadau gan Michael Sheen a seren *Homes Under the Hammer* Martin Roberts, yn ogystal â cherddorion o fri fel Dafydd Iwan ac artistiaid eraill o bob cwr o Gymru.



Hydref: Trwy gydnabod Nos Galan Gaeaf a'i ddathlu yng Nghaffi Tyleri, rydym wedi annog parhad cynulliadau wedi'u hysbrydoli gan llên gwerin, gan gynnwys teithiau cerdded yn y coetir, adrodd straeon Cymreig a cherfio pwmpenni, gan sicrhau bod ysbryd gorffennol Cymru yn parhau.



Drwy ymgorffori'r traddodiadau hyn yn ein rhaglen, rydym wedi helpu i greu cysylltiadau rhwng cenedlaethau, gan sicrhau bod llên gwerin Cymru yn parhau i ffynnu trwy rannu profiadau.

4 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32

Y Tîm Trawsnewid Addysg

Mae'r Tîm Trawsnewid Addysg yn adolygu ac yn monitro'r [Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg](#) yn fisol, gan ddarparu adroddiadau tymhorol i'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg ac adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae adroddiadau datblygu a chynnydd y Fforwm Cymraeg mewn Addysg yn cael eu llywio drwy brosesau gwleidyddol y cyngor yn flynyddol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd yn ffocws allweddol i fwrdd rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r Fforwm Derbyniadau.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

1. Agorodd Ysgol Gymraeg Tredegar ym mis Medi 2023 mewn lleoliad dros dro, Tŷ Bedwellte, ar gyfer disgyblion oedran meithrin a dosbarth derbyn. Ym mis Medi 2024, tyfodd nifer y disgyblion. Mae'r niferoedd yn gadarnhaol, gyda 30 o ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol ar hyn o bryd ar gyfer y dosbarth meithrin, y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1. Ym mis Medi 2025, rhagwelir y bydd y niferoedd ar y gofrestr yn 36. Sefydlwyd ail ystafell ddosbarth ar y safle dros dro ar gyfer mis Medi 2024 i ddarparu ar gyfer disgyblion nes bod yr adeilad newydd wedi'i gwblhau yn nhymor yr hydref 2025/26.
2. Mae derbyniadau i Ysgol Gymraeg Bro Helyg hefyd wedi codi yn ei dosbarthiadau meithrin a derbyn ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26 (yn dechrau ym mis Medi), er bod poblogaeth yr ysgol yn gostwng yn gyffredinol.
3. Llwyddodd Blaenau Gwent i gyflawni rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ailwampio yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn nhymor yr hydref 2022; cynhaliwyd agoriad swyddogol gan weinidogion ym mis Mehefin 2023. Fel y soniwyd uchod, mae'r Adran Addysg yn bwrw ymlaen â phrosiect i greu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda 210 o leoedd, Ysgol Gymraeg Tredegar, o dan drefniadau llywodraethu presennol Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Bydd hyn ynghyd â chyfleuster gofal plant cysylltiedig o fewn Tredegar / Cwm Sirhywi ar Ffordd y Siartwyr, a fydd yn barod i'w feddiannu yn nhymor yr hydref ym mlwyddyn academiaidd 2025/26.

4. Rhoddwyd ymrwymiad fel rhan o gyfnod deng mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i benderfynu ble mae angen darpariaeth bellach a mapio hynny ar draws Blaenau Gwent.

Cynllunio addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg

1. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi sefydlu gweithgor i edrych ar anghenion uwchradd awdurdodau lleol ar draws rhanbarth y de-ddwyrain ac mae gan Flaenau Gwent grŵp ffocws gyda Sir Fynwy, Powys a Thorfaen. Roedd yr angen i ddatblygu addysg uwchradd ymhellach ar draws y rhanbarth yn bryder ar gyfer blwyddyn academaidd 2028 oherwydd y disgwyl y bydd y ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn llawn. Fodd bynnag, disgwylir bellach y bydd yr ysgol yn debygol o allu darparu ar gyfer dysgwyr Blaenau Gwent tan 2032.
2. Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi datblygu cynllun marchnata a chyfathrebu cryf, gan dargedu a hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog, wrth hefyd sefydlu dulliau priodol o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, er mwyn llywio blaenoriaethau strategol allweddol. Mae cynlluniau ar gyfer ymgyrch arall i ddosbarthu taflenni a llyfrnodau am fanteision dwyieithrwydd a'r ddarpariaeth eginblanhigyn newydd yn Sirhywi, Tredegar, a'r bwriad yw gwneud hyn yn ystod tymor yr haf 2025, gan gwmpasu pob rhan o Flaenau Gwent.
3. Mae'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg yn cyfarfod bob tymor i drafod cynnydd yn erbyn yr amcanion a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg yn Nhŷ Bedwellte, gan roi cyfle i aelodau ymweld â'r ystafell ddosbarth dros dro ar y safle. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae grwpiau monitro wedi'u sefydlu ac amcanion penodol wedi'u neilltuo iddynt ac mae'n rhaid iddynt adrodd yn erbyn yr amcanion a neilltuwyd iddynt. Mae'r Is-grŵp Cyfathrebu, sy'n cynnwys partneriaid allweddol, swyddogion addysg a'r cyngor, wedi parhau i gyfarfod bob deufis, ac mae'r aelodaeth wedi cynyddu dros y flwyddyn. Mae'r grŵp yn gweithio ar y cyd i rannu digwyddiadau ac adnoddau sydd ar ddod sy'n cefnogi cyflawni amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac i ddatblygu deunyddiau cyfathrebu sy'n helpu i hyrwyddo'r Gymraeg mewn addysg a'r cyfleoedd sydd ar gael ym Mlaenau Gwent.

4. Mae'r ffigurau ar gyfer cynlluniau sabothol Cymraeg yn parhau i gynyddu'n flynyddol, gyda nifer y staff ysgolion sy'n mynychu cyrsiau'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gan ddangos ymrwymiad parhaus i'r Gymraeg.

Cynlluniau ar gyfer adeilad Ysgol Gymraeg Tredegar

Ym mis Hydref 2024, fe wnaeth y contractwr a oedd yn adeiladu'r ysgol eginblanhigyn ffeilio i fynd i weinyddiaeth. Penodwyd contractwr newydd, Tilbury Douglas, a wnaeth waith brys ac sydd bellach yn ymrwymo i gontract i gwblhau'r adeilad yn nhymor yr hydref 2025/26. Mae disgyblion ac athrawon wedi ymweld â'r safle o'r blaen ac mae cynlluniau ar gyfer ymweliadau eraill ym mis Mai a mis Gorffennaf 2025.

Mawrth 2025





Y prosiect arfaethedig ar ôl ei gwblhau:




Grant trochi

Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i'r awdurdod lleol i ddatblygu uned drochi o fewn Ysgol Gymraeg Bro Helyg, i ddarparu ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg. Bu tri chylch cyllid, sef y peilot yn 2021/22, 2022/2025 a nawr 2025/26.

Yn unol â'i broses ar gyfer cyflawni'r prosiect, mae'r cyngor yn gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos i gymharu modelau o ddarpariaeth drochi a nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau, wrth hefyd fesur a datblygu arfer gorau. Yn ogystal, mae'r prosiect wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun cyfathrebu a hyrwyddo trwy weithio mewn partneriaeth â Fforwm Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent, sydd yn ei dro yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r ddarpariaeth newydd yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent.

Gweler y fideo gwych a grëwyd mewn partneriaeth â Rhieni dros Addysg Gymraeg, sy'n cynnig cipolwg go iawn ar lwyddiant yr uned drochi a chipolwg ar y cyfleusterau sydd ar gael.



<https://www.youtube.com/watch?v=olnestkElil>

Cymraeg i Bawb

Mae Cymraeg i Bawb yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru gyda phartneriaid yn cyfrannu mewn nwyddau neu wasanaethau i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo addysg Gymraeg a chynyddu ymgysylltiad â hi. Mae Partneriaeth Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg De-ddwyrain Cymru a Llio Elgar fel y Pencampwr yn gyfrifol am Cymraeg i Bawb.

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys awdurdodau lleol, Mentrau Iaith, Cymraeg i Blant, RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) a Llywodraeth Cymru yn ne-ddwyrain Cymru. Cychwynnwyd y prosiect gan swyddogion Cymraeg Grŵp Deddf, sef grŵp o swyddogion Cymraeg yn ne-ddwyrain Cymru, a welodd botensial mewn cydweithio fel cydweithfa sefydledig dros addysg cyfrwng Cymraeg. Darparodd y Tîm Polisi gynnwys ar gyfer tudalen Blaenau Gwent ar [wefan](#) Cymraeg i Bawb, a lanswyd ym mis Chwefror 2024.



Mae dwyieithrwydd i bawb

Bilingualism is for Everyone



Anghenion dysgu ychwanegol

Yn ogystal, sefydlodd Ysgol Gymraeg Bro Helyg o fis Medi 2024 ganolfan adnoddau anghenion arbennig ar gyfer hyd at ddeg o ddisgyblion ag ADY yn unol â'r ymgynghoriad anghenion dysgu ychwanegol diweddar (2022). Ailwampwyd ystafell ddosbarth i fod yn ganolfan adnoddau gydag ystafell synhwyraidd ac ystafell dawelu a lle awyr agored i gefnogi dysgwyr.

Yn ystod y cyfnod adrodd, recriwtwyd pum aelod newydd o staff ar gyfer 'Canolfan y Noddfa', sef y ganolfan anhwylderau sbectrwm awtistiaeth yn Ysgol Bro Helyg.

Blynyddoedd cynnar a gofal plant

Mae cynllun ehangu Dechrau'n Deg Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Blaenau Gwent ar gyfer 2024/25 wedi cryfhau'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn rhannau gogleddol Cwm Ebwy Fawr, gan gynyddu'r galw amdani a hwyluso cyfnod pontio llyfnach i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r lleoliad newydd ei sefydlu, a agorodd ym mis Ionawr 2025, yn gweithio'n weithredol tuag at gyflawni Croesi'r Bont, gyda'r swyddog Camfa yn mynegi boddhad mawr gyda'i gynnydd tuag at ddwyieithrwydd.

Yn ogystal, mae ysgol eginblanhigyn cyfrwng Cymraeg yn cael ei hadeiladu yn Nhredegar, gyda chyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg pwrpasol.

Mae'r tîm yn ffodus i gynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys y Cydgysylltydd Gofal Plant, y Swyddog Gwella Ansawdd, a'r Therapydd Lleferydd ac Iaith. Mae eu harbenigedd yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo defnydd o Gymraeg achlysurol ar draws y tîm. Roedd Cynnig Dysgu Proffesiynol Gofal Plant 2024/25 yn cynnwys hyfforddiant ar integreiddio Cymraeg achlysurol i leoliadau gofal plant. Oherwydd y galw mawr, cyflwynwyd dwy sesiwn hyfforddi ychwanegol, gyda 94 o gyfranogwyr o 21 o leoliadau gofal plant (gan gynnwys saith gwarchodwr plant) yn mynychu.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sicrhaodd y Tîm Gofal Plant a Chwarae gyllid ychwanegol, gan alluogi pob darparwr gofal plant i gyfieithu o leiaf eu datganiad o ddiben i'r Gymraeg, gan gefnogi cydymffurfedd â'r Cynnig Rhagweithiol. Yn ogystal, llwyddodd dau ddarparwr gofal plant i ennill y Wobr Efydd fel rhan o'u hymrwymiad i'r Addewid Cymraeg.

Gan edrych ymlaen at 2025/26, bydd y tîm yn parhau i ehangu cyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys Cam Nesaf, i helpu ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Anogir yr holl staff i gwblhau hyfforddiant Camau trwy sefydliadau ymbarél. Ar ben hynny, bydd y ddau leoliad gofal plant Dechrau'n Deg a redir gan yr awdurdod lleol yn gweithio tuag at ddwyieithrwydd, gan osod esiampl ysbrydoledig i eraill ei dilyn.

5 Sgiliau Cymraeg

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi croesawu newidiadau sylweddol yn ein dull o ymdrin â'r Gymraeg, gan feithrin mwy o werthfawrogiad a sbarduno diddordeb newydd yn niwylliant a hunaniaeth Cymru. Mae ein hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith yn y gweithle wedi cryfhau, ac rydym yn gweithredu amrywiaeth o fentrau i wella amlygrwydd, cynyddu defnydd bob dydd, a chefnogi'r Flaenraglen Waith ar gyfer y Gymraeg.

Agwedd allweddol ar ein hymdrechion yw annog defnyddio'r Gymraeg mewn cyfathrebu ysgrifenedig, o integreiddio cyfarchion Cymraeg mewn negeseuon e-bost i feithrin hyder mewn gweithwyr i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg lle bo modd. Mewn cyfarfodydd, rydym yn hyrwyddo'n weithredol y defnydd o Gymraeg achlysurol, gan ei hymgorffori'n naturiol mewn trafodaethau i'w gwneud yn rhan fwy cyfarwydd a chyfforddus o ryngweithiadau yn y gweithle. Mae ein menter 'Cymraeg Lefel Cwrteisi' yn grymuso gweithwyr i ddysgu a defnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol, gan helpu i greu amgylchedd dwyieithog sy'n gynhwysol a chroesawgar.

I atgyfnerthu ein hymrwymiad, rydym yn dathlu digwyddiadau arbennig fel Diwrnod Shwmae, sef diwrnod arbennig i annog pawb i ddechrau sgysiau yn y Gymraeg, ni waeth beth fo'u lefel rhuglder. Dim ond un o sawl ffordd rydym yn ymgysylltu â'r iaith mewn modd ystyrlon a hygyrch yw'r fenter hon.

Y tu hwnt i gyfathrebu, rydym yn canolbwyntio ar gynyddu amlygrwydd y Gymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys cefndiroedd dwyieithog Microsoft Teams, hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyflwyniadau a dogfennau, a sicrhau bod ein deunyddiau'n adlewyrchu ein hymroddiad i'r iaith. Mae'r Flaenraglen Waith ar gyfer y Gymraeg yn chwarae rhan hanfodol wrth arwain ein hymdrechion, gan sicrhau bod ein polisiau'n cydfynd â strategaethau ieithyddol a diwylliannol ehangach.

Drwy'r mentrau hyn, rydym yn meithrin diwylliant gweithle sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu'r Gymraeg – nid yn unig fel rhan bwysig o'n treftadaeth ond fel agwedd ddeinamig ac esblygol ar fywyd bob dydd. Wrth i ni barhau â'r daith hon, rydym wedi ymrwymo i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymgorffori'r Gymraeg yn ein gweithrediadau dyddiol, gan annog cyfranogiad ehangach a meithrin gwerthfawrogiad parhaol o'r iaith ymhlith yr holl weithwyr.

Cyngor Blaenau Gwent yn Dathlu Diwrnod Shwmae gyda Brwdfrydedd a Balchder

Roedd staff Cyngor Blaenau Gwent wrth eu bodd yn ymuno â'r gymuned i ddathlu Diwrnod Shwmae, achlysur sy'n tynnu sylw at ddefnydd bob dydd o'r iaith Gymraeg ac yn tanlinellu ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg.

- Agorodd a chau timau ledled y cyngor gyfarfodydd yn y Gymraeg, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i integreiddio'r iaith i'n trafodion swyddogol.
- Cyfarchodd staff ein canolfan alwadau aelodau'r cyhoedd gyda "Shwmae" llawen.
- Mae tîm ein canolfan alwadau wedi cofleidio'r fenter hon yn llwyr, gan gydnabod yr effaith gadarnhaol y mae'n ei chael ar wasanaeth cwsmeriaid a phrofiad cyffredinol y cyhoedd.
- Mae ein Haelodau Etholedig yn ysbrydoli eraill i werthfawrogi a defnyddio'r iaith Gymraeg hardd yn eu bywydau beunyddiol.



Gallwch wyllo fideos o fusnesau, ysgolion a staff lleol ar y wefan [yma](http://yma.gov.uk).

Newyddion Staff



Cyfle Hyfforddiant a Chymorth yr Iaith Gymraeg

Oes gennych chi rywfaint o sgiliau yn y Gymraeg? A ddysgoch chi'r Gymraeg yn yr ysgol a hoffech chi roi hwb i'ch hyder i'ch helpu i'w defnyddio'n fwy?
Ydych chi wedi bod yn dysgu ond hoffech chi gael hwb ychwanegol i'ch hyder i'r lefel nesaf, ar gyfer gwaith ac i'w ddefnyddio'n gymdeithasol?

Gan ddechrau ym mis Medi mae gennym Gwrs Mynediad AM DDIM dan arweiniad tiwtor ar gael i'r holl staff.

Oes gennych chi rywfaint o sgiliau yn y Gymraeg? A ddysgoch chi'r Gymraeg yn yr ysgol a hoffech chi roi hwb i'ch hyder i'ch helpu i'w defnyddio'n fwy?

Dyfyniad gan un o'n staff sy'n siarad Cymraeg ac sydd wedi bod yn cynnig cefnogaeth i rai o'n dysgwyr, Owain Thomson:

"I try to start every interaction online with some Welsh words, so people know I speak the language, and I've enjoyed the opportunity to talk to learners and suggest Welsh songs and podcasts to show the informal side of learning a new language."
"Apart from that, I would always support increasing opportunities to meet other learners and speakers in order to speak Welsh and celebrate the culture."

Rydw i'n trio dechrau pob rhyngweithiad ar lein gyda rhyw faint o eiriau Gymraeg fel bod pobl yn gwybod dwi'n siarad yr iaith, a 'dwi wedi mwynhau cael cyfle i siarad â dysgwyr ac awgrymu caneuon a podlediadau Gymraeg er mwyn dangos yr ochor llau ffurfiol o ddysgu iaith Newydd. Heb law am hynni, byddai wastad yn cefnogi cynyddu cyfleoedd i gwrdd â dysgwyr a siaradwyr eraill er mwyn siarad Cymraeg a dathlu'r diwylliant.

Bydd ein Swyddog Iaith Gymraeg hefyd wrth law i gynnig unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen.

Cysylltwch â'n Swyddog Iaith Gymraeg am ragor o wybodaeth ar sut i gofrestru eich diddordeb neu am unrhyw geisiadau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg:

Vikki.alexander@blaenau-gwent.gov.uk

Bilingual Out of Office messages

Please can all staff ensure that they set their outgoing messages bilingually as per the Council's requirements, see the Welsh Language Guidance on the [intranet](#) for further advice, or use the example below:

I am currently out of the office. If your query is urgent, please contact:

Rwyf allan o'r swyddfa ar hyn o bryd. Os yw eich ymholiad yn un brys, cysylltwch â:

I am out of office at the moment, I will return on 00/00/0000.
Merry Christmas!

Rydw i'n i ffwrdd o'r swyddfa ar hyn o bryd, byddaf yn dychwelyd ar 00/00/0000.
Nadolig Llawn!



Please could you make sure all automatic replies are bilingual all year round.


Safon 127

Rhaid i gorff asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion

O dan Safon 127, rhaid i bob cyngor yng Nghymru gadw cofnod o sgiliau Cymraeg ei staff. Rydym yn cofnodi'r data hwn drwy ein porth Datblygu Sefydliadol, iTrent. Anfonwyd nodiadau atgoffa yn aml drwy gydol y flwyddyn i gadw'r wybodaeth hon yn gyfredol.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd **2,992** o aelodau staff yn cael eu cyflogi gan y cyngor. Mae'r ffigurau ar gyfer prif iaith ein staff a'u lefelau sgiliau Cymraeg yn amrywio gan fod swyddogaeth adrodd iTrent yn caniatáu dewis nifer o brif ieithoedd ac yn cofnodi lefelau sgiliau Cymraeg yn ôl rolau staff nid niferoedd staff, e.e. mae rhai staff yn llenwi sawl swydd o fewn yr awdurdod.


Prif iaith staff



Cyfarwyddiaeth	Saesneg	Cymraeg	Gwag	Arall	Cyfanswm
Gwasanaethau Corfforaethol	250	1	54	6	311
Addysg	842	7	445	95	1,389
Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol	479	1	296	23	799
Gwasanaethau Cymdeithasol	402	0	190	36	628
Cyfanswm	1973	9	985	160	3,127*


Mae nifer y staff y mae'r Gymraeg yn brif iaith iddynt wedi aros yn gymharol sefydlog ymhlith y rhai sy'n darparu gwybodaeth am iaith o'i gymharu â data'r llynedd, fel y cyflwynir isod. Ar y cyfan, ar draws yr holl gyfarwyddiaethau, dim ond un aelod o staff y mae'r Gymraeg yn brif iaith iddo yr ydym wedi'i golli.

Sgiliau ieithyddol staff




Y gallu i siarad yn Gymraeg	Nifer y staff
Lefel Cwrteisi / Mynediad	433
Sylfaen	22
Canolradd (yn weddol dda)	115
Uwch (yn eithaf da)	17
Hyfedredd (yn rhugl)	42
Dim gallu	1,163
Dim ymateb	1,232
Cyfanswm	3,024

Ysgrifennu Cymraeg



Y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg	Nifer y staff
Lefel Cwrteisi / Mynediad	336
Sylfaen	18
Canolradd (yn weddol dda)	99
Uwch (yn eithaf da)	23
Hyfedredd (yn rhugl)	35
Dim gallu	1,238
Dim ymateb	1,275
Cyfanswm	3,024



Y gallu i ddarllen yn Gymraeg	Nifer y staff
Lefel Cwrteisi / Mynediad	433
Sylfaen	23
Canolradd (yn weddol dda)	150
Uwch (yn eithaf da)	32
Hyfedredd (yn rhugl)	41
Dim gallu	1,147
Dim ymateb	1,198
Cyfanswm	3,024

Mae gweithwyr o fewn y sefydliad wedi dangos cynnydd yn eu gallu ysgrifenedig yn y Gymraeg yn gyffredinol, gyda deg unigolyn ychwanegol yn nodi rhywfaint o sgiliau ysgrifenedig yn y Gymraeg. Mae'r rhai sy'n nodi eu bod yn gallu darllen yn y Gymraeg i ryw lefel wedi cynyddu ychydig, gyda dau aelod arall o staff yn nodi hynny o fewn y data a roddir. Mae nifer y gweithwyr sydd â sgiliau siarad Cymraeg ar 31 Mawrth 2024 yn cyfateb i 629 aelod o staff; gallant siarad yr iaith 'yn rhugl', 'yn eithaf da', 'yn weddol dda' neu 'ychydig' – mae hyn yn cyfateb i 24 unigolyn ychwanegol yn datgan rhywfaint o allu llafar yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae 38% o gyfanswm y staff yn datgan nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg o gwbl; mae hyn yn ostyngiad cadarnhaol o 2% ers y cyfnod adrodd diwethaf.

6 Rhagolwg

Wrth i ni symud ymlaen, mae'r cyngor yn parhau i fod yn gadarn yn ei ymrwymiad i gynnal safonau'r Gymraeg, gan hyrwyddo, cefnogi a chryfhau cydymffurfedd yn barhaus ar draws pob maes gwasanaeth. Mae ein hymroddiad i ddatblygu'r Gymraeg yn mynd y tu hwnt i gyflawni rhwymedigaethau – mae'n adlewyrchu ein huchelgais i greu amgylchedd lle mae'r iaith yn ffynnu, yn cael ei dathlu, ac yn cael ei hintegreiddio'n ddidor i fywyd bob dydd.

Yn y flwyddyn nesaf, byddwn yn datblygu camau allweddol sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn hygyrch ac yn amlwg ym Mlaenau Gwent. Bydd Grŵp Cydymffurfio â'r Gymraeg yn parhau i gyfarfod a monitro ein cynnydd. Byddwn yn ymgorffori cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin i gynyddu amlygrwydd ieithyddol a diwylliannol y Gymraeg, gan atgyfnerthu ein hymdrechion i feithrin ymdeimlad gwell o hunaniaeth a chynhwysiant yn y gymuned.

Bydd cydweithio yn ganolog i'r dull a gymerwn – gweithio'n agos gyda busnesau lleol a'r Tîm Adfywio i ddathlu Diwrnod Shwmae, cryfhau perthnasoedd â phartneriaid, a chefnogi'r Tîm Addysg yn y gwaith parhaus o ddatblygu Ysgol Gymraeg Tredegar. Bydd ein hymrwymiad i addysg hefyd yn ymestyn i staff y cyngor, wrth i ni ymdrechu i greu cyfleoedd anffurfiol ar gyfer dysgu Cymraeg, gan annog mwy o staff i ymgymryd â hyfforddiant a datblygu eu rhuglder.

Yn fewnol, byddwn yn adolygu ac yn mireinio ein gweithrediadau'n gyson i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r arferion gorau, gan wneud gwelliannau angenrheidiol i wella ein gwasanaethau Cymraeg. Drwy ymgorffori'r iaith yn ddyfnach yn ein systemau a meithrin gweithle mwy dwyieithog, ein nod yw grymuso staff a thrigolion i ymgysylltu'n hyderus â'r Gymraeg fel rhan o'u rhyngweithiadau dyddiol.

Yn anad dim, rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i wneud effaith ystyrlon – nid yn unig o ran cydymffurfio ond wrth adeiladu dyfodol lle mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu dathlu, eu cofleidio a'u cynnal. Drwy'r ymdrechion parhaus hyn, byddwn yn parhau i weithio tuag at ddarparu'r safonau gwasanaeth uchaf i'n staff, trigolion, partneriaid a rhanddeiliaid, gan sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn gonglfaen i hunaniaeth ein cymuned am genedlaethau i ddod.

Atodiad 1



Cynllun Gweithredu Cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg Adroddiad Cynnydd (Ymchwiliad CS1170)

S17.1B	Nodi meysydd gwasanaeth gyda gwasanaeth negeseuon awtomataidd a niferoedd uchel o alwadau trwy Brosiect Adolygu Teleffoni Cyngor BG (S8.4A) ac adolygu cydymffurfiaeth.	Mawrth 2023	Mehefin 2023	Bernadette Elias	Rebecca Morales-Reeves (Tîm Trawsnewid Strategol)	Cyllideb maes gwasanaeth y Tîm Trawsnewid Strategol	

S17.3	Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i staff ar y drefn newydd.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymiaidau staffio	Ymrwymiaidau Cyllidebol *	BRAG
S17.3A	Cyflwyno rhaglen hyfforddi hirdymor ar gyfer staff sy'n delio â galwadau ffôn gan eu huwchsgilio i ymdrin â galwadau yn unol â Safon 11 (S11.2B).	Mawrth 2023	Ebrill 2024	Sarah King	Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	
S17.4	Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg bod Camau Gorfodi 1 - 3 wedi'u cwblhau.						
S17.4A	Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu CS092.	Rhagfyr 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	

** Bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phwysau cyllidebol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Arwain Corfforaethol i'w hystyried.*

3. Camau Gweithredu Hyfforddiant

Safon 130: Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith

- a) i'ch gweithwyr dderbyn gwersi Cymraeg sylfaenol, ac
- b) i weithwyr sy'n rheoli eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

Safon 131: Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd i'ch gweithwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol dderbyn hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim i ddatblygu eu sgiliau iaith

Safon 132: Rhaid i chi ddarparu cyrsiau hyfforddi fel bod eich gweithwyr yn datblygu –

- a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
- b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;
- c) dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Safon 133: Wrth ddarparu gwybodaeth i weithwyr newydd (er enghraifft, drwy broses sefydlu), rhaid i chi ddarparu gwybodaeth at ddibenion codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Gweithredu gan y Cyngor:

Mae'r Safonau a nodir uchod ar waith i sicrhau bod ein sefydliad yn darparu cyfleoedd hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg i'r holl staff. Er bod y Cyngor wedi darparu cyfleoedd hyfforddi i staff ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg, mae'r diweddariad canlynol yn amlinellu'r camau yr ydym wedi'u cymryd i fod yn fwy rhagweithiol wrth annog staff i gael mynediad i'n darpariaethau hyfforddi.

Mae'r 'Polisi Hyfforddiant ar ôl Mynediad' (***gweler Atodiad 12***) yn rhoi arweiniad i reolwyr a'u staff ynghylch logisteg hyfforddiant yn ystod oriau gwaith. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chysiau sy'n arwain at gymhwyster a gydnabyddir yn ffurfiol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd bod staff sy'n cyfeirio at y ddogfen hon am arweiniad yn gwybod am yr holl gyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau, gan ein bod yn gwybod bod sgiliau Cymraeg yn fuddiol i bob rôl (***S130.1a***). Felly, rydym wedi ychwanegu adran at y polisi (***gweler t.3 adran 1.5 o atodiad 12***) sy'n cyfeirio staff at y weithdrefn hyfforddiant Cymraeg (***S131.1a***) (***gweler atodiad 13***).

Datblygodd y cynllun gweithredu hwn y weithdrefn hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion hyfforddi (***S132.1a***) a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; y rhwymedigaeth i ddilyn y safonau; sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn y lleoliad gwaith; a chysiau iaith o ddechreuwr i uwch (***S132.1a, S132.1c***) (***Gweler atodiad 14 am enghreifftiau o adnoddau ar fewnrwyd y Cyngor***). Nodwyd y newidiadau i'r weithdrefn ym mrieff y rheolwyr (***gweler atodiad 15***) gan annog rheolwyr i ymgyswrtu â'r weithdrefn a rhoi gwybod i'w staff am y diweddariadau (***S132.1d***). At hynny, mae'n arfer safonol atodi'r weithdrefn wrth ymateb i unrhyw ymholiadau gan staff ynglŷn â hyfforddiant Cymraeg (***S130.1b, S131.1b***). Rydym hefyd yn anfon nodiadau atgoffa rheolaidd at yr holl staff ynghylch y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael iddynt (***S132.2b***) (***gweler atodiad 16 a 17 am rai enghreifftiau***).

Mae'r weithdrefn hyfforddiant a'r ffurflen awdurdodi recriwtio (***gweler camau gweithredu recriwtio***) yn nodi bod yn rhaid i reolwyr hysbysu'r Swyddog Cymorth Cymraeg pan fydd eu staff yn dechrau unrhyw hyfforddiant Cymraeg (***S130.2b, S131.2b***).

Un o'r camau gweithredu yn y cynllun yw darparu pecyn hyfforddiant Cymraeg drwy'r porth e-ddysgu newydd sy'n cael ei ddatblygu, erbyn mis Hydref 2023. Fodd bynnag, ni fydd y porth newydd ar gael i staff tan ganol mis Ebrill 2024. Felly, er bod hyfforddiant Cymraeg wedi'i

gynnwys yn nyluniad y porth, mae oedi gyda'r cam gweithredu hwn. O ganlyniad, bydd datblygu gweithdrefn fonitro gryfach sy'n sicrhau bod hyfforddiant Cymraeg yn cael ei ailadrodd yn rheolaidd drwy'r porth e-ddysgu yn dechrau unwaith y bydd y porth yn barod i staff ei ddefnyddio (**S132.2a**). Fel mesur dros dro, gwneir ein monitro drwy negeseuon e-bost a anfonir at Swyddog y Gymraeg pan fydd aelod o staff wedi gorffen uned ar-lein, ac adroddiadau cryno chwarterol gan Dysgu Cymraeg. Mae angen i reolwyr hefyd roi gwybod i Swyddog y Gymraeg os oes unrhyw un o'u staff yn dechrau unrhyw hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg. Fel y soniwyd uchod, mae'r neges hon yn cael ei phwysleisio yn ein gweithdrefn hyfforddiant a'r ffurflen awdurdodi recriwtio. Rhennir y wybodaeth hon yn Adroddiad Blyneddol y Gymraeg (**gweler Atodiad 18**) (**S130.2a, S131.2a, S131.2b**). Rydym yn agos at lansio'r porth hyfforddi newydd, 'Thinqi', lle bydd gan y Gymraeg rôl flaenllaw yn y cyrsiau sefydlu ar gyfer staff.

Mae'r rhaglen sefydlu ar fewnrwyd y Cyngor wedi'i diweddarau i annog mwy o gydymffurfiaeth weithredol â gofynion y Cyngor o ran y Gymraeg. Un o'r gwelliannau allweddol yw cyfeirio gweithwyr at yr agweddau ar ganllawiau a hyfforddiant Cymraeg sy'n ymwneud â'r weithdrefn ffôn (**S133.1Ai, S133.1Aii, S133.2a**) (**Gweler Atodiadau 19, 20, 21**). Er mwyn sicrhau bod rheolwyr yn cymhwyso'r newidiadau hyn, cafodd y diwygiadau i'n gweithdrefn sefydlu eu cynnwys yn y briff i reolwyr (**S133.1b, S133.2b**) (**gweler Atodiad 15**).

Mae'n bwysig nodi, ar hyn o bryd, nad yw'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â recriwtio ar gael yn Gymraeg. Mae hyn oherwydd materion cyllidebol. Ar hyn o bryd mae ein tîm Datblygu Sefydliadol yn cynnal adolygiad o'r holl bolisiâu a gweithdrefnau, gan gynnwys symud i fersiwn addasedig o 'iTrent' a'r porth hyfforddi 'Thinqi', felly bydd y dogfennau'n cael eu cyfieithu pan fydd y portffolio o waith yn cael ei drosglwyddo.

Safon 130: Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith—

(a)i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a

(b)i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

S130.1	Rhaid i'r Cyngor greu trefn i ddarparu cyfleoedd yn ystod amser gwaith i'w weithwyr gael gwersi Cymraeg sylfaenol, ac i weithwyr sy'n rheoli pobl eraill dderbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymadau staffio	Ymrwymadau Cyllidebol	BRAG
S130.1A	Adolygu a datblygu Polisi Hyfforddiant Ôl-fynediad i gynnwys gweithdrefn i ddarparu cyfleoedd i bob aelod o staff dderbyn hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol yn ystod amser gwaith.	Mawrth 2023	Mehefin 2023	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Lee McDonald (Datblygu Sefydliadol)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol	
S130.1B	Polisi Hyfforddiant Ôl-fynediad diwygiedig yn cael ei hyrwyddo i'r holl staff drwy'r Cynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092 (S8.3A).	Mai 2023	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Louise Bishop (Cyfathrebu)	Cyllideb maes gwasanaeth Cyfathrebu	
S130.2	Rhaid i'r Cyngor gofnodi faint o staff sy'n cael cynnig yr hyfforddiant hwn a faint o staff sy'n cael yr hyfforddiant hwn yn flynyddol.						
S130.2A	Gwybodaeth perfformiad chwarterol i'w chasglu gan Lywodraeth Cymru, Dysgu Cymraeg a darparwyr hyfforddiant ynghylch nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant.	Mawrth 2023	Hydref 2023	Sarah King	Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	

S130.2B	Anogir rheolwyr a staff i hysbysu Swyddog Cymorth y Gymraeg pan fydd staff yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg drwy'r Cynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092 (S8.3A).	Mawrth 2023	Mawrth 24	Bernadette Elias	Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Cyfathrebu / Polisi a Phartneriaethau	
---------	--	-------------	-----------	------------------	---	--	--

S130.3	Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg bod camau gorfodi 1 - 2 wedi'u cwblhau.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymadau staffio	Ymrwymadau Cyllidebol	BRSAG
S130.4A	Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu CS092	Rhagfyr 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	

** Bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phwysau cyllidebol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Arwain Corfforaethol i'w hystyried.*

Safon 131: Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.

S131.1	Rhaid i'r Cyngor greu trefn i ddarparu cyfleoedd i'w weithwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol dderbyn hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim, i ddatblygu eu sgiliau iaith.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymiaid staffio	Ymrwymiaidau Cyllidebol	BRAG
S131.1A	Datblygu Hyfforddiant Iaith Gymraeg - Canllaw i Reolwyr a Staff i gynnwys gweithdrefn i ddarparu cyfleoedd i bob aelod o staff dderbyn hyfforddiant Cymraeg pellach yn rhad ac am ddim, i ddatblygu eu sgiliau iaith.	Mawrth 2023	Mai 2023	Sarah King	Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	
S131.1B	Hyfforddiant Iaith Gymraeg Diwygiedig – Hyrwyddo'r Canllaw i Reolwyr a Staff i'r holl staff drwy'r Cynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092 (S8.3A).	Mehefin 2023	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Louise Bishop (Cyfathrebu)	Cyllideb maes gwasanaeth Cyfathrebu	

S131.2	Rhaid i'r Cyngor gofnodi faint o staff sy'n cael cynnig yr hyfforddiant hwn a faint o staff sy'n cael yr hyfforddiant hwn yn flynyddol.						
S131.2A	Gwybodaeth perfformiad chwarterol i'w chasglu gan ddarparwyr hyfforddiant ynglŷn â nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant pellach yn y Gymraeg.	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	
S131.2B	Rhaid i holl reolwyr y Cyngor gadw cofnod o staff sy'n derbyn Hyfforddiant Iaith Gymraeg a rhaid iddynt ddarparu crynodeb blynyddol i'r Tîm Polisi a Phartneriaethau.	Mawrth 2023	Hydref 2023	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau) Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	

S131.3	Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg bod Camau Gorfodi 1 - 2 wedi'u cwblhau.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymadau staffio	Ymrwymadau Cyllidebol	BRAG
S131.3A	Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu CS092	Rhagfyr 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	

** Bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phwysau cyllidebol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Arwain Corfforaethol i'w hystyried*

Safon 132: Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu—

(a)ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
(b)dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;
(c)dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

S132.1 Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i'w weithwyr ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.							
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymiaidau staffio	Ymrwymiaidau Cyllidebol	BRAG
S132.1A	Pecyn hyfforddiant iaith Gymraeg i'w ddatblygu yn unol â Safon 132 (S132.1D).	Mawrth 2023	Mehefin 2023	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau) Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	
S132.1B	Pecyn hyfforddiant iaith Gymraeg i fod ar gael i'r holl staff trwy borth e-ddysgu newydd y Cyngor (yn cael ei gomisiynu ar hyn o bryd).	Hydref 2023	Hydref 2023	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Lee McDonald (Datblygu Sefydliadol)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol	
S132.1C	Adolygu a datblygu canllawiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg sydd ar gael i'r holl staff drwy'r fewnwyd gan sicrhau eu bod yn cynnwys yr elfennau dysgu gofynnol yn unol â Safon 131.	Mawrth 2023	Hydref 2023	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau) Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	
S132.1D	Hyrwyddo pecyn hyfforddiant iaith	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Carolyn Jenkins (Cyfathrebu)	Cyllideb maes gwasanaeth Cyfathrebu	

	Gymraeg a chanllawiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg drwy Gynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092 (S8.3A).				Louise Bishop (Cyfathrebu)		
--	--	--	--	--	----------------------------	--	--

S132.2 Rhaid i'r Cyngor fod â gweithdrefn yn ei lle sy'n sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei ailadrodd o bryd i'w gilydd.							
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymadau staffio	Ymrwymadau Cyllidebol	BRAG
S132.2A	Datblygu gweithdrefn ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael ei ailadrodd o bryd i'w gilydd drwy'r porth e-ddysgu (gan gynnwys hyfforddiant gloywi).	Mawrth 2023	Hydref 2023	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Lee McDonald (Datblygu Sefydliadol)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol	
S132.2B	Hyfforddiant iaith Gymraeg cyfnodol (e.e., sesiynau gloywi) i'w hyrwyddo drwy Gynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092 .	Hydref 2023	Rhagfyr 2023	Bernadette Elias	Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Louise Bishop (Cyfathrebu)	Cyllideb maes gwasanaeth Cyfathrebu	

S132.2 Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg bod Camau Gorfodi 1 - 2 wedi'u cwblhau.							
S131.3A	Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu CS092	Rhagfyr 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	

* Bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phwysau cyllidebol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Arwain Corfforaethol i'w hystyried

Safon 133: Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

S133.1	Rhaid i'r Cyngor addasu ei weithdrefnau a'i sesiynau sefydlu i gynnwys darparu gwybodaeth i weithwyr newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymiadau staffio	Ymrwymiadau Cyllidebol	BRAG
S133.1Ai	Datblygu a darparu gwybodaeth i gefnogi'r rhaglen sefydlu.	Mawrth 2023	Mehefin 2023	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau) Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	
S133.1Aii	Adolygu a datblygu'r rhaglen sefydlu ar-lein / PDF bresennol i sicrhau ei bod yn cynnwys yr elfennau dysgu gofynnol yn unol â Safon 131.	Mawrth 2023	Hydref 2023	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Lee McDonald (Datblygu Sefydliadol)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol	
S133.1B	Hyrwyddo rhaglen sefydlu ddiwygiedig ar-lein / PDF drwy gyfrwng y Gymraeg drwy Gynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092 (S8.3A).	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Louise Bishop (Cyfathrebu)	Cyllideb maes gwasanaeth Cyfathrebu	
S133.2	Rhaid i'r Cyngor baratoi pecyn gwybodaeth ar yr iaith Gymraeg a rhannu'r pecyn hwn gyda phob aelod newydd o staff.						

S133.2A	Datblygu pecyn gwybodaeth ar y Gymraeg i'w gynnwys o fewn gwybodaeth sefydlu ar gyfer staff newydd a'i gynnwys yn y Canllawiau Iaith Gymraeg i staff (S133.1A).	Mawrth 2023	Mehefin 2023	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau) Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	
S133.2B	Hyrwyddo gweithdrefnau a sesiynau sefydlu diwygiedig drwy gyfrwng y Gymraeg drwy Gynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092 (S8.3A) (S133.1B).	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Louise Bishop (Cyfathrebu)	Cyllideb maes gwasanaeth Cyfathrebu	
S133.3	Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cymryd Camau Gorfodi 1 a 2.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymadau staffio	Ymrwymadau Cyllidebol	BRAG
S133.3A	Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu CS092	Rhagfyr 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	

* Bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phwysau cyllidebol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Arwain Corfforaethol i'w hystyried

4. Camau Gweithredu Recriwtio

Safon 127: Rhaid i chi asesu sgiliau Cymraeg eich gweithwyr.

Safon 136: Wrth asesu'r gofynion ar gyfer swydd newydd neu wag, rhaid i chi asesu'r angen am sgiliau Cymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd lle mae un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:

- a) Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- b) Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg yn y swydd;
- c) Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol; neu
- d) Nid oes angen sgiliau Cymraeg

Safon 136A: Os ydych wedi categoreiddio swydd fel swydd lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid i chi:

- a) nodi hynny wrth hysbysebu'r swydd, a
- b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg

Gweithredu gan y Cyngor:

Mae'r proffiliau staff ar y system 'iTrent' yn caniatáu i'r cyngor fonitro galluedd iaith y staff. Cyhoeddir y data fel rhan o Adroddiad Blyneddol y Gymraeg (**gweler Atodiad 18**). Mae'r data hefyd yn ein helpu i gyflenwi gwasanaethau, er enghraifft pan fyddwn yn gwneud galwadau monitro Cymraeg (**S127.2a**).

Mae'r Cyngor yn dilyn fframwaith y Gymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop (ALTE) i werthuso sgiliau staff, yn seiliedig ar hunanasesiadau staff ar 'iTrent'. Wrth ystyried y Weithdrefn Asesu Sgiliau Cymraeg, gwnaethom ystyried defnyddio'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR). Fodd bynnag, ar ôl cynnal treial cychwynnol gyda Rheolwyr, nodwyd bod staff yn teimlo bod y safonau yn lefelau dechreuwyr CEFR yn rhy uchel ac y gallent wneud i staff a fyddai fel arfer yn meddwl bod ganddynt y sgiliau sylfaenol yn y fframwaith ALTE ostwng eu lefelau i lefel 0. O ganlyniad, rydym yn parhau i ddefnyddio'r fframwaith ALTE cyfarwydd ond rydym wedi cyfuno lefel 'Cwrteisi' y Senedd a'r fframweithiau ALTE lefel 1 (**gweler Atodiad 22**) gan ein bod yn gobeithio torri'r stigma ynghylch galluedd Cymraeg yr ydym wedi dod ar ei draws wrth siarad â'n staff a dysgu o'n rhwydweithiau Cymraeg (**S136A.1b**). Mae copi o'r fframwaith ar gael i staff ar y system 'iTrent' i'w gwneud hi'n fwy syml a chyflymach i bob aelod o staff ddiweddarau eu sgiliau iaith (**S127.1a, S127.2b**) (**gweler Atodiad 23**).

Mae cyflwyno 'Lefel Cwrteisi' wedi helpu staff i ddeall eu galluedd eu hunain a sut maent yn cyfrannu at ein sefydliad, yn ogystal â'u gwneud yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael. Gwnaethom greu ymgyrch gyfathrebu fewnol ac allanol a ddangosodd y budd yr ydym ni fel cyflogwr yn ei gael o'r Gymraeg 'Lefel Cwrteisi' hon (**S127.1c, S127.2c, S136a.1c**). Roeddem yn hapus i weld bod yr ymgyrch hon wedi cael ei defnyddio fel enghraifft o arfer da mewn Cyfarfod Rhwydwaith Cymraeg mewn Addysg Rhanbarthol a drafododd y Strategaeth Ymgysylltu a Marchnata Ddrafft ym mis Hydref 2023 (**gweler Atodiadau 24 a 25**).

Mae'r broses recriwtio wedi cael ei diweddarau a'i gwella i gynnwys gwiriad o'r gofynion sgiliau iaith ar gyfer pob rôl cyn postio swyddi gwag newydd. Newidiwyd y Ffurflen Awdurdodi Recriwtio (**gweler Atodiad 26**) i gynnwys siart llif a fydd yn penderfynu ar lefel y sgiliau sydd

eu hangen ar yr hysbyseb swydd a'r hyfforddiant y bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ei gwblhau (**S136.2a, 136a.1a**). Mae'r ffurflen bellach yn cyfrif am allu Cymraeg staff presennol y grŵp a gallu'r adran i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg (**gweler Atodiad 26**). Mae'r ffurflen hefyd yn ystyried pa mor aml y mae angen i'r rôl ryngweithio â chwsmeriaid i ddarparu'r lefel a'r swm cywir o hyfforddiant gorfodol. Canlyniadau disgwylidig y newidiadau hyn yw cynyddu nifer y rolau sy'n cael eu hysbysebu fel rhai sy'n gofyn am y Gymraeg a chynyddu nifer y staff sy'n manteisio ar hyfforddiant.

Mae'r diweddariadau allweddol hyn wedi'u hyrwyddo i reolwyr drwy'r holl ohebiaeth i reolwyr (**gweler Atodiad 27**), cyflwyniadau mewn cyfarfodydd Tîm Rheoli Adrannol, a thrwy eu cynnwys yn y sesiynau Canllawiau Cymraeg yn y Gwaith sy'n cael eu darparu ar draws y sefydliad drwy Swyddog y Gymraeg (**S136.1a, S136.3a**).

Rydym wedi treialu'r defnydd o blatfformau ar-lein i recriwtio siaradwyr Cymraeg, er enghraifft pan bostiwyd y swydd wag ar gyfer ein Swyddog Cymraeg newydd (**S127.1b**), ac rydym yn rhagweld y bydd y llwyfannau hyn yn cael eu defnyddio'n amlach nawr y bydd angen sgiliau Cymraeg ar fwy o swyddi. Fodd bynnag, o ystyried y sefyllfa ariannol bresennol yr ydym ni a'r rhan fwyaf o Gynghorau yn ei hwynebu a'r gost fesul hysbyseb o rhwng £100-£150, mae'n debygol mai'r swyddi a hysbysebir drwy'r llwyfannau hyn fydd y rhai sy'n gofyn am y sgiliau lefel uwch. Serch hynny, byddwn yn parhau i ddefnyddio ein rhwydweithiau i rannu ein swyddi gwag sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg ar unrhyw lefel i'n helpu i recriwtio mwy o staff sy'n siarad Cymraeg. Hefyd, yn ystod wythnosau olaf y cynllun gweithredu hwn, rydym wedi diwygio'r templed hysbyseb swydd y mae rheolwyr yn ei ddefnyddio ar gyfer rolau mewnol ac allanol, i gynnwys datganiad ein bod yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a dolên i'r ffurflen gais Gymraeg. Mae'r datganiad hwn i'w weld ar yr hysbyseb heb orfod clicio ar y disgrifiad swydd i weld a allwch gyflwyno cais yn Gymraeg (**gweler Atodiadau 28 a 29**).

Safon 127: Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.							
S127.1	Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo weithdrefn mewn lle i asesu sgiliau Cymraeg ei weithwyr.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymiadau staffio	Ymrwymiadau Cyllidebol *	BRAG
S127.1A	Adolygu a datblygu'r Weithdrefn Asesu Sgiliau Cymraeg presennol, gan gynnwys system iTrent, a'i diweddarau yn unol â Safon 127.	Mawrth 2023	Hydref 2023	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Lee McDonald (Datblygu Sefydliadol) Jane Thomas (Datblygu Sefydliadol)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol	
S127.1B	Cwmpasu a phrofi'r defnydd o lwyfannau recriwtio ar-lein ar gyfer siaradwyr Cymraeg, yn enwedig ar gyfer swyddi newydd neu swyddi presennol sy'n gofyn am y Gymraeg fel sgil hanfodol.	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Lee McDonald (Datblygu Sefydliadol)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol	
S127.1C	Hyrwyddo canllawiau diwygiedig Gweithdrefn Asesu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr a Staff drwy Gynllun Cyfathrebu'r Gymraeg (S8.3A).	Medi 2023	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Louise Bishop (Cyfathrebu)	Cyllideb maes gwasanaeth Cyfathrebu	

S127.2	Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y sgiliau hynny'n cael eu hasesu'n flynyddol.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymiau staffio	Ymrwymiau Cyllidebol	BRAG
S127.2A	Asesiad blynyddol o sgiliau Cymraeg staff drwy system iTrent, adrodd a dadansoddi er mwyn llywio'r cynllun Adnoddau Dynol i sicrhau adnoddau digonol ar gyfer gwasanaethau ffôn Cymraeg.	Mawrth 2023	Hydref 2023	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Lee McDonald (Datblygu Sefydliadol) Jane Thomas (Datblygu Sefydliadol)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol	
S127.2B	Nodiadau atgoffa chwarterol i staff ddiweddarau eu gwybodaeth bersonol ar iTrent trwy Gynllun Cyfathrebu'r Iaith Gymraeg CS092 (S8.3A).	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Lee McDonald (Datblygu Sefydliadol)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol	
S127.2C	Hyrwyddiad i staff yn egluro lefelau sgiliau Cymraeg (e.e., 'ychydig' yn erbyn 'cymedrol') drwy Gynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092.	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Louise Bishop (Cyfathrebu)	Cyllideb maes gwasanaeth cyfathrebu	

** Bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phwysau cyllidebol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Arwain Corfforaethol i'w hystyried*

Safon 136: Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

- (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;**
- (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;**
- (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu**
- (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.**

S136.1	Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i staff sy'n asesu anghenion sgiliau iaith swydd newydd neu swydd wag ar sut i gynnal asesiadau sy'n cydymffurfio â gofynion Safon 136.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymadau staffio	Ymrwymadau Cyllidebol	BRAG
S136.1A	Cymorth, gwybodaeth a hyfforddiant a ddarperir i staff sy'n asesu sgiliau iaith yn unol â'r weithdrefn Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg ddiwygiedig i'w hyrwyddo drwy Gynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092 (S8.3A) (S127.1A) (S127.1C).	Mawrth 2023	Hydref 2023	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol /Cyfathrebu / Polisi a Phartneriaethau	
S136.2	Rhaid i'r Cyngor baratoi canllawiau i staff ar sut i gynnal asesiad o anghenion sgiliau ieithyddol swydd.						
S136.2A	Canllawiau ar asesu anghenion ieithyddol swydd, wedi'u hymgorffori o fewn y dogfennau perthnasol, i'w hyrwyddo drwy Gynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092 (S8.3A) (S127.1A) (S127.1C).	Mawrth 2023	Hydref 2023	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol /Cyfathrebu / Polisi a Phartneriaethau	

S136.3	Wrth gynnal asesiadau o dan Safon 136, rhaid i'r Cyngor, ar bob achlysur, ystyried y gallu o fewn maes gwaith y swydd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn unol â'r Safonau ac ystyried a ddylid hysbysebu'r swydd fel swydd lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymiaid staffio	Ymrwymiaidau Cyllidebol	BRAG
S136.3A	Diwygio'r weithdrefn asesu sgiliau iaith Gymraeg i gynnwys ystyried darparu gwasanaeth Cymraeg a hysbysebu sgiliau Cymraeg yn hanfodol (S127.1) (S127.2A), a monitro gweithrediad.	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Ceri Gay (Datblygu Sefydliadol) Lee McDonald (Datblygu Sefydliadol) Jane Thomas (Datblygu Sefydliadol) Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol / Polisi a Phartneriaethau	
S136.4	Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg bod Camau Gorfodi 1 - 3 wedi'u cwblhau.						
S136.4A	Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu'r Gymraeg CS092	Rhagfyr 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	

** Bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phwysau cyllidebol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Arwain Corfforaethol i'w hystyried*

Safon 136A: Os byddwch wedi categorio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi—
(a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a
(b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.

S136A.1	Rhaid i'r Cyngor newid ei weithdrefnau fel bod y corff, pan fo'r Cyngor yn categorio swydd fel un lle mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, yn pennu hynny, wrth hysbysebu'r swydd a hysbysebu'r swydd yn Gymraeg yn unol â safon 136A. .						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymiadau staffio	Ymrwymiadau Cyllidebol	BRAG
S136A.1A	Diwygio'r weithdrefn Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg i ystyried ôl-gatgoreiddio sgiliau iaith Gymraeg (S127.1) (S127.2)	Mawrth 2023	Mawrth 24	Bernadette Elias	Ceri Gay, Lee McDonald, Jane Thomas (Datblygu Sefydliadol) Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Datblygu Sefydliadol / Polisi a Phartneriaethau	
S136A.1B	Cynnal ymchwil i ddeall y rhwystrau o gyflogi siaradwyr Cymraeg i swyddi.	Mawrth 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	
S136A.1C	Datblygu ymgyrch ymgysylltu a chyfathrebu rhagweithiol sy'n hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg i gyflogwyr a defnydd o fewn y gweithle.	Medi 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Katherine Watkins-Hughes (Polisi a Phartneriaethau) Carolyn Jenkins (Cyfathrebu)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau/ Cyfathrebu	
S136.4	Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg bod Camau Gorfodi 1 - 3 wedi'u cwblhau.						
S136.4A	Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu'r Gymraeg CS092	Rhagfyr 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	

5. Hyrwyddo gwasanaeth Cymraeg gwell

Safon 81: Rhaid i chi hyrwyddo unrhyw wasanaeth Cymraeg rydych chi'n ei ddarparu a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

Gweithredu gan y Cyngor:

Fel rhan o gloi Cynllun Gweithredu CS092, teimlwn fel Cyngor ein bod mewn gwell sefyllfa o ran darparu ein gwasanaethau'n ddwyieithog ac rydym wedi dechrau cyflwyno ein hymgyrch a grëwyd yn unol â Safon 81. Rydym wedi adlewyrchu ymgyrch '[Pa bynnag ffordd...](#)' Cyngor Sir Caerfyrddin, a nodwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg fel enghraifft o arfer da. Gobeithiwn y bydd hyn yn annog ein trigolion i ddefnyddio ein gwasanaethau Cymraeg, nid yn unig i gynyddu eu galluoedd a'u cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ond hefyd i ddefnyddio'r ymarfer fel offeryn i fonitro gweithrediad y gwasanaethau hynny (***gweler Atodiad 30***).

Safon 81: Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg							
S81.1	Byddai ymgyrch hyrwyddo benodol am y gwasanaethau ffôn Cymraeg yn fanteisiol. Dylid cynnal ymgyrch o'r fath pan fo'r corff yn hyderus bod ei wasanaethau ffôn Cymraeg yn cydymffurfio â'r Safonau cyflenwi gwasanaethau.						
Cyf.	Cam Gweithredu	Dechrau	Gorffen	Arweinydd Tîm Arwain Corfforaethol	Arweinydd(ion) Gweithredu / ymrwymadau staffio	Ymrwymadau Cyllidebol *	BRAG
S81.1A	Cyflwyno ymgyrch hyrwyddo benodol drwy Gynllun Cyfathrebu'r Gymraeg CS092 (S8.3A).	Chwefror 2024	Mawrth 2024	Bernadette Elias	Carolyn Jenkins (Cyfathrebu) Louise Bishop (Cyfathrebu)	Cyllideb maes gwasanaeth Cyfathrebu	
S81.2	Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg bod Cam Gorfodi 1 wedi'i gwblhau.						
S81.2A	Adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu'r Gymraeg CS092.	Rhagfyr 2023	Mawrth 2024	Sarah King	Andrew Parker (Polisi a Phartneriaethau)	Cyllideb maes gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau	

* Bydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phwysau cyllidebol yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Arwain Corfforaethol i'w hystyried.

6. Y Camau Nesaf

- Adolygu Aelodaeth Grŵp Craidd
- Y Gymraeg wedi'i hymgorffori o fewn Cynlluniau Busnes Corfforaethol
- Datblygiadau Cyllid ar gyfer 2024-25
- Cynlluniau Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Trosolwg o'r Camau Allweddol

Wrth i ni gloi'r Cynllun Gweithredu hoffem nodi'r cynllunio a'r ymroddiad a ddangoswyd wrth ei weithredu. Fel Cyngor, rydym yn teimlo bod y Cynllun Gweithredu wedi creu newid cadarnhaol nid yn unig gyda'r camau gweithredu eu hunain ond hefyd o ran ymwybyddiaeth staff o ddyletswydd y Cyngor i weithio yn unol â gofynion y Gymraeg.

Mae'r 'grŵp craidd' wedi chwarae rhan hanfodol yn y cynlluniau i gyflawni pob cam, gan wasanaethu fel grŵp ymgynghori i arddangos cynnydd a chynnig mewnbwn. Felly, rydym yn cynnig wrth symud ymlaen fod y grŵp yn cael ei ailenwi a'i ddiwygio i ddod yn grŵp ffocws i gynorthwyo, gweithredu ac adolygu ein gofynion Cymraeg a fydd yn anelu at gefnogi ein gwelliant parhaus.

At hynny, mae'r ymwybyddiaeth gynyddol o ofynion y Gymraeg wedi cefnogi'r gwaith o gryfhau'r broses o gynnwys y Gymraeg yn ein cynlluniau busnes. Gan weithio'n agos gyda'r Tîm Rheoli Perfformiad Corfforaethol rydym wedi datblygu trefniadau monitro/atebolrwydd mewnol er mwyn cael adborth chwarterol gan ystod o adrannau ar sut mae eu gwaith wedi cyfrannu at y nodau a nodir yn Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.

Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y cynllun hwn, rydym wedi llwyddo i sicrhau Cyllid Ffyniant Gyffredin, yr ydym yn ei ddefnyddio i gynyddu gwelededd yr iaith a diwylliant yn yr ardal. Mae rhan o'r cyllid hwn yn cael ei defnyddio i wella capasiti Cymraeg y Cyngor ac mae adborth cadarnhaol eisoes yn cael ei dderbyn drwy ddarparu sesiynau cymorth arweiniad Cymraeg ar hyd a lled y sefydliad. Mae'r sesiynau'n helpu staff i ddeall sut i weithio yn unol â pholisïau Cymraeg y Cyngor, sut i gael mynediad at y canllawiau a pha gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant Cymraeg.

Mae'r cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i weithio'n agos gyda'n Tîm Cyfathrebu Corfforaethol i ddefnyddio Cynllun Cyfathrebu Cymraeg sy'n addysgu ac yn codi proffil yr iaith a'i lle yn niwylliant Blaenau Gwent. Mae'r Cynllun Cyfathrebu wedi'i gymeradwyo ar lefel gorfforaethol gyda chytundeb gan ein hadran Addysg i'n cefnogi yn ein hymdrech i wneud Blaenau Gwent yn ardal weithredol Gymreig. Byddwn hefyd yn defnyddio rhan o'r cyllid hwn i gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gweithgareddau Cymraeg lleol a fydd yn cyfrannu at y cynnydd yn nifer y dysgwyr a'r siaradwyr Cymraeg ar draws y fwrdeistref. Rydym yn edrych ymlaen at ehangu ar waith Cymraeg a gwblhawyd y tu allan i'r camau a nodir yng Nghynllun Gweithredu CS092 yn Adroddiad Blynyddol y Gymraeg, sydd ar ddod.

